TRAETHAWD

AR Y

SABBOTH:

YN YR HWN YR YSTYRIR,

I. MOESOLDEB Y GORCHYMYN.
II. NEWIDIAD Y DIWRNOD DAN YR ORUCHWYLIAETH NEWYDD.
III. SANCTEIDDIAD Y SABBOTH.

YNGHYD AG AMRYW

ANNOGAETHAU A CHYFARWYDDIADAU

I EI SANCTEIDDIAW EF.

Gan John Elias.

YR AIL ARGRAFFIAD.

A Duw a fendigodd y seithfed dydd, ae a'i sancteiddiodd ef: oblegid ynddo y gorphwysasai oddiwrth ei holl waith.

MOSES.

Yr hwn a aeth i mewn i ei orphwysfa ef, hwnw hefyd a orphwysodd oddiwrth ei weithredoedd ei hun, megys y gwnaeth Duw oddiwrth yr eiddo yntau.

PAUL.

BALA,
ARGRAFFEDIG GAN R. SAUNDERSON.
1809.

RHAGYMADRODD.

Yr achos i mi anturio ysgrifenu y Traethawd canlynol, oedd, fy mod yn sylwi, gydá gofid, ar y dirmyg y mae y Gorchymyn sanctaidd hwn yn gael yn ein Gwlad, gan bawb, o bob enw o Grefyddwŷr, yn gystal a'r digrefydd. Yr ydwyf yn hyderus, fod y rhan fwyaf, os nid pawb o honoch, y rhai y daw y Traethawd hwn i'ch dwylaw, yn addef ac yn credu bod Duw; a bod Ysgrythyrau yr Hen Destament a'r Newydd, yn wir air Duw; a bod Duw yn wrthddrych i ei addoli, gyda sancteiddrwydd a pharch, yn ol ei drefn, a'i reolau ei hun yn unig: a bod yn ddyledus ar holl ddynolryw ei addoli ef felly. Gan hyny, y mae yn alarus meddwl fod neb, a gafodd ddesgrifiad cywir o wir wrthddrych addoliad, yn y Gair, yn nacâu ei addoli, neu yn cynnyg addoliad iddo, yn groes i ei drefn....Y mae yn alarus meddwl fod un dydd o'n bywyd yn myned heibio, heb fod rhyw ranau o hono yn cael eu neillduo i addoli Duw; nid yn ddirgel yn unig, ond yn deuluaidd hefyd.

Y mae y Teuluoedd hyny yn anghristionogol ac yn annuwiol, y rhai sydd heb addoliad parchus i Dduw yn-ddynt, bob dydd.....trwm yw meddwl fod cymmaint o'r fath Deuluoedd yn ein Tir! Ond, y mae yn drymach meddwl, fod y Diwrnod a neillduodd ac a sancteiddiodd Duw, i ei wasanaethu a'i addoli ef, drwy gydol y dydd, yn cael ei dreulio gan ddynion, mewn meddyliau, geiriau, a gweithredoedd bydol, neu gnawdol—neu mewn cwsg a segurdod, ac esgeulusdra o addoliad Duw; yn ddirgel, teuluaidd, a chyhoeddus.....Dymunaf daer annog tri math o ddynion, yn enwedigol, i ymdrechu o blaid sancteiddiaw y Sabboth.

1. *Penaethiaid* a *Swyddogion gwladol* (os daw y Traethawd hwn i ddwylaw neb o honoch) dylech ddefnyddio eich awdurdod o blaid sancteiddiaw y Sabboth; ac yn erbyn ei halogi ef. "Tywysogion ydynt ofn i weithredoedd drwg." (Rhuf. xiii. 3.) Diammeu mai gweithred ddrwg yw hal-

ogi Sabboth Duw; am hyny, dylech fod yn arswyd i dorwyr y Sabboth, ac yn amddiffynfa i'r rhai sydd yn ei barchu:—Defnyddio yr amryw gyfreithiau buddiol a'r sydd yn ein Teyrnas yn erbyn Halogwyr Sabbothau....... Cydnabydded Swyddogion Gwladol, o bob math, mai Duw a'u gosododd yn eu lle; ac mai dros Dduw y dylent ddefnyddio eu hawdurdod. Dwrdiodd Nehemiah y pendefigion, am halogi y Sabboth. (Neh. xiii.) Nid wyf yn deall fod un gorchymyn, o eiddo Duw, yn cael mwy o ddirmyg, gan bob graddau yn ein Gwlad, nag y gorchymyn hwn. Am hyny, dylai Penaethiaid, a Swyddogion gwladol, ymdrechu yn fwy o'i blaid; er mwyn gogoniant Duw, eu diogelwch eu hunain, a'n Gwlad. Y mae diwygiad mewn cadw Sabboth yn foddion i ddiogelu Breninoedd, a Thywysogion, a'u Deiliaid, rhag barnedigaethau Duw; (gwel Ier. xvii. 24, 25.) Am hyny, O Swyddogion anrhydeddus ein Teyrnas, defnyddiwch y cyfreithiau uniawn sydd genych yn eich dwylaw, yn erbyn y bai gwaeddfawr hwn, sydd yn cyffrôi Duw i dywallt ei farn arnom. (adn. 27.)

2. *Gweinidogion yr Efengyl*, a *Swyddogion eglwysig*.—1. Byddwch siamplau i'r praidd mewn iawn dreulio y Sabboth.—2. Dangoswch natur a gogoniant y gorchymyn i'r bobl, yn ddirgel a chyhoeddus; yn nghyd â'r ddyledswydd, y fraint, a'r budd o'i gadw yn sanctaidd: y pechod, y niwed, a'r golled o'i halogi.—3. Ceryddwch y rhai sydd yn ei halogi, drwy weithredoedd neu eiriau—yn enwedig, y crefyddwyr sydd drwy ymddyddanion bydol, neu gnawdol ac ofer, yn eu llygru eu hunain ac ereill; cyn, ac ar ol pregethu, &c. a thrwy hyny, yn annog Duw i felldithiaw eu bendithion; ac yn amddifadu eu hunain o fudd y moddion:—Ni byddwch lân heb hyn.

3. *Penau Teuluoedd*, atoch chwi yn benodol y cyfeiriwyd y gorchymyn.—'Tydi, na'th fab, na'th ferch, na'th was, na'th forwyn,' &c. O ymdrechwch i roddi siamplau da i'ch Teuluoedd i gadw y Sabboth, gan eu cynghori a'u cyfarwyddo pa fodd i'w gadw yn sanctaidd; a gwneuthur iddynt roddi eu gwaith heibio yn brydlawn nos Sadwrn, i ochelyd achlysuron i'w dori:---eu ceryddu yn ofn Duw am ei halogi.....Och, y mae llawer tad a mam, wedi cer-

yddu eu plant yn llym, am wneuthur gwerth ceiniog o golled iddynt hwy; ond ni ddywedasant air erioed wrthynt oblegid tori y Sabboth! O na fyddwch foddlawn, rieni, a Phenau Teuluoedd, adael i'ch plant a'ch teulu halogi y Sabboth.

Yr ydwyf yn meddwl fod diwygiad, neu adfeiliad yn yr eglwys, yn ymddangos yn fuan yn y dull o gadw y Sabboth. Pan fyddo deffröad a diwygiad yn yr eglwys, a goruchwyliaethau Duw yn bwysig ar ysbrydoedd dynion, mae yn hawdd galw y Sabboth yn hyfrydwch. Ië, y maent yn ei gadw yn fanwl a sanctaidd: a'r dydd yn ymddangos yn rhy fyr ganddynt yn y gwaith:—Pan fyddo dirywiad yn yr eglwys, y mae hyn yn colli yn fuan. Y mae addoli Duw yn myned yn faich—nid oes blas ar ddarllen y Gair, ei wrandaw, na myfyriaw arno; nac ar weddïo Duw na'i foliannu, nac ar ymddyddan am bethau ysbrydol. Y mae dynion yn amddifeid o fater cadw y Sabboth yn eu meddyliau a'u myfyrdodau. Nid yw eu holl feddyliau ar bethau addas i'r Sabboth; am hyny y maent yn tori allan i ymddyddanion bydol—achos eu cymmydogion—neu y pethau mwyaf cyffredin mewn crefydd. Y mae caledwch neu dynerwch cydwybod—cnawdolrwydd, neu ysbrydolrwydd, proffeswyr, yn ymddangos yn eu dull o gadw y Sabboth.

Nid oes genyf ond gorchymyn y Traethawd canlynol i fendith Duw;—Da genyf gael bwrw fy hatling i drysorfa y deml, i blith y llawer a fwriwyd i mewn gan rai enwog iawn. Dymunaf arnoch fyned heibio i'r colliadau sydd ynddo; ac os caiff rhyw un fendith wrth ei ddarllen, rhodded y gogoniant i Dduw yn unig:——EFE YN UNIG SYDD DEILWNG.——Bod iddo ef gael y GOGONIANT, a fy mrodyr, a'm cydwladwyr gael LLES, yw dymuniad

Eich annheilwng Frawd,

a'ch Gwas dros Grist,

JOHN ELIAS.

TRAETHAWD AR Y SABBOTH.

EXODUS XX. 8.

'Cofia y Dydd Sabboth i ei sancteiddio ef.'

YN y Gorchymyn hwn, y mae Duw yn ei ddangos ei hun yn Ben-Arglwydd ar ein hamser.—Mae y Deg Gorchymyn yn cynnwys ein dyledswydd tuag at Dduw, a thuag at ein cymmydog: Y llech gyntaf yn cynnwys, mewn pedwar gorchymyn, ein dyledswydd tuag at Dduw: Yr ail lech, mewn chwech o orchymynion, yn cynnwys ein dyledswydd tuag at ein cymmydog.

Yn y gorchymyn cyntaf, mae Duw yn amlygu ei hun yn wrthddrych addoliad; ac yn gofyn i ninnau ei addoli ef, ac ef yn unig; a hyny mewn modd sanctaidd a pharchus.

Yn yr ail, mae efe yn dangos y drefn, yn ol pa un mae yn rhaid iddo gael ei addoli: sef mai nid drwy ddelwau a dychymygion dynion, ond yn ol ei reolau ac ei drefniadau ei hun yn unig.

Yn y trydydd, mae efe yn dangos y parch dyladwy oddiwrthym i Dduw, ei briodoliaethau, a phob peth yn perthyn iddo, wrth ei addoli, ac yn ein holl ymddygiad yn gyffredinol, gan anrhydeddu a sancteiddio ei enw.

Yn y pedwerydd, mae yn hysbysu yr amser neillduol y myn efe gael ei addoli ynddo; sef un dydd o bob saith; a bod hwnw i gael ei dreuliaw yn gwbl sanctaidd, ac yn hollawl iddo ef ei hunan.

Wrth sylwi ar y pedwerydd gorchymyn, mae yn angenrheidiol dal sylw ar dri pheth: sef,

I. *Moesoldeb y Gorchymyn.*

II. *Newidiad y Diwrnod dan yr Oruchwyliaeth Newydd.*

III. *Mewn perthynas i gadw y Dydd yn Ddydd Sanctaidd.*

I. *Fod y pedwerydd Gorchymyn yn gangen o'r ddeddf foesol,* a roddwyd i Adda cyn y cwymp, ac a ail gyhoeddwyd ar Sinai; a roddwyd yn yr arch; a gadwyd yn berffaith gan Grist; ac y sydd yn cael ei hysgrifenu ar galonau y saint.

SYLW.—Mae pob gorchymyn a roddes Duw i ni, naill ai yn orchymyn moesol, naturiol, neu yn orchymyn pendant, pen-arglwyddiaethol.

Wrth orchymyn moesol, yr ydwyf yn deall, rhyw orchymyn sydd ag ei rwymedigaethau yn tarddu oddiar natur pethau, ac oddiwrth sefyllfa naturiol gyffredinol dynolryw yn y byd hwn; ac nid oddiwrth orchymyn penodol Duw yn unig: megys, caru ac addoli Duw; caru ein cymmydog, a pheidio ei ddrygu nac ei niweidio mewn un gradd.

Wrth orchymyn pendant, yr ydwyf yn deall, y gorchymyn hwnw sydd ag ei rwymedigaethau yn tarddu yn unig oddiar ewyllys pen-arglwyddiaethol Duw, mewn perthynas i beth nad oedd o'r blaen na da na drwg ynddo ei hun, o ran natur a threfn pethau; ond y mae ei dda neu ei ddrwg yn cyfodi yn unig oddiwrth orchymyn pen-arglwyddiaethol Duw: megys y gorchymyn wrth ein rhieni cyntaf, am iddynt beidio bwyta o ffrwyth y pren oedd yn nghanol yr ardd, yr hyn nid oedd na da na drwg, yn ol natur pethau: ond yr oedd peidio bwyta yn dda, *yn unig,* am i Dduw orchymyn peidio; a bwyta yn ddrwg, *yn unig,* ar gyfrif y gorchymyn. Felly,

hefyd, yr oedd gorchymynion y ddeddf seremoniol, ac amryw orchymynion y ddeddf wladol, i Israel. Y rhai hyn oeddynt yn perthyn i ryw bersonau neillduol, dros ryw amser pènodol.

Sylw.—Rhoddes Duw dair deddf i Israel; sef, 1. Y *Ddeddf Foesol,* yr hon sydd gynnwysedig yn y deng air, neu y deg gorchymyn:—2. Y *Ddeddf Seremoniol,* am drefn eu haddoliad:—3. Y *Ddeddf Wladol,* am eu trefniadau gwladol. Efe a roddes y ddeddf foesol iddynt fel dynion; y ddeddf seremoniol iddynt fel eglwys; ac y ddeddf wladol iddynt fel gwladwriaeth.

Mae y gorchymyn am sancteiddio y Sabboth, o ran ei sylwedd, yn orchymyn moesol, er bod rhai pethau pènodawl ynddo: etto, nid yw y pethau hyny yn tynu y gorchymyn o fod yn foesol.—Peth moesol, naturiol, yw i ddynion roddi rhan o eu hamser at wasanaeth Duw. Ie, a pheth moesol oedd i ddyn roddi y rhan hyny o ei amser a bènodai Duw iddo neillduo i gael ei addoli: ond, peth penodol, pen-arglwydddiaethol yn Nuw, oedd sefydlu un dydd o bob saith i ei addoli. Eithyr, am fod yr Arglwydd, yn y dechreuad, trwy ei orchymyn ac ei siampl, wedi hysbysu i ddyn yr amser a bènododd, mae yn beth naturiol i ddyn gydymffurfiaw â Duw, ufuddâu iddo, a defnyddiaw ei amser yn ol y drefn hon.

Yr oedd angenrheidrwydd naturiol, rhesymol, am Sabboth, neu ran neillduol, bènodol, o ein hamser i wasanaethu ac addoli Duw:

1, Mae yn beth naturiol, rhesymol, bod Duw yn un i ei addoli; a bod yn ddyledswydd ar holl ddynolryw, yn mhob oes, i roddi addoliad iddo, ac ei wasanaethu ef.

2. Yr oedd yn rhesymol, yn ol cyfansoddiad natur dyn, yn ei greedigaeth, iddo gael Sabboth

neu amser pènodol, neillduol, i addoli Duw. Oblegid ni wnaethpwyd y dyn yn ysbryd i gyd, fel yr angelion; nac yn gnawd i gyd, fel yr anifeiliaid: ond yn greadur canol, o gnawd, ac ysbryd anfarwol hefyd. Yr oedd efe, o ran gosodiad ei natur, i fod yn ei weithrediad rhwng pethau ysbrydol, nefol, a phethau daearol. Nid oedd efe, fel yr angelion, i fod gyda phethau ysbrydol yn ddidor; na fel yr anifeiliaid, heb ddim a wnelai â phethau ysbrydol. Felly, gan hyny, yr oedd yn angenrheidiol iddo gael gorphwysfa; yn un peth o ran ei gorph, yr hwn oedd o natur ddaearol; ac o ran ei ysbryd, fel y gallai neillduo oddiwrth ei lafur dibechod, at addoliad Duw.

3. Fel y mae dynion yn greaduriaid cymdeithasol, mae yn gweddu iddynt addoli Duw, yn gyhoeddus, yn gynnulleidfäoedd, gyda eu gilydd, yn y dull mwyaf parchus, sanctaidd, a chrefyddol: a rhoddi holl feddylfryd eu calon ar hyny, yn neillduol oddiwrth bob peth arall.——Yn ganlynol, mae yn rhaid bod amser pènodol wedi ei sefydlu, a chydsynio mewn perthynas iddo, cyn y galler ymgynnull i addoli.

4. Fel mae deddf natur yn dangos, bod dyn yn greadur ag y mae yn perthyu iddo addoli Duw; felly, hefyd, mae yr un ddeddf yn dangos y dylem ei addoli yn gyhoeddus ac yn gymdeithasol. Gan ein bod yn rhwym mewn pethau ereill i gymdeithasu efo ein gilydd, a thrwy hyny i fod yn gynnorthwy y naill i'r llall—diammeu, wrth yr un ddeddf, ein bod yn rhwym i gymdeithasu efo ein gilydd yn addoliad Duw; ac i ddangos pob cydgordiad yn y pethau sydd yn perthyn i ei ogoniant ef.——Yn ganlynol,

5. Mae yn amlwg, yn ol deddf natur, fod rhyw amser pènodol i gael ei neillduo i addoli Duw, yn gymdeithasol a chyhoeddus. Mae yn amlwg, hefyd,

mai Duw, yr hwn yw gwrthddrych addoliad, ac Arglwydd y dyn, ac ar ei amser, yw yr un mae yn gweddu iddo bènodi yr amser hyny. Megys yr oedd goleuni greddfol, tufewnol, yn y dyn, yn dangos iddo bod rhyw amser i ei neillduo i addoli Duw, yn barchus ac yn gyhoeddus; felly yr oedd yr addysgiadau a dderbyniodd oddiwrth waith a gorphwysiad Duw, yn dysgu iddo mai un dydd o saith oedd wedi ei bènodi, ac yn ofynol i'r dyben mawr hwn.——Mae un dydd o saith yn orphwysiad sanctaidd, wedi ei sefydlu ar yr un seiliau moesol, ag ydyw priodas un gwr âg un wraig yn unig—y mae hon yn ddeddf ddigyfnewid, medd Crist, 'Yn wrryw ac yn fenyw y creodd Duw hwynt.'

6. Megys mae yn hollol, ac yn gwbl addas i ryw ran bènodol o ein hamser gael ei neillduo i addoli Duw, fel y gallem roddi pob gorchwylion ac achosion bydol heibio, ac y gallem ymroddi yn fwy rhydd a hollol, mewn ymarferiad ysbrydol â dyledswyddau crefyddol, yn addoliad neillduol Duw; felly, mae yn amlwg hefyd fod rhyw ran o amser yn fwy addas nac ei gilydd. Pe buasai yn rhy anfynych, megys unwaith yn y flwyddyn, neu y cyffelyb, diau y buasai yn dra anaddas, mewn amryw ystyriaethau: yr ochr arall, pe buasai yn rhy fynych, buasai yn anfanteisiol o ran amryw bethau. Ond mae un dydd o bob saith, yn ol trefn, gorchymyn, a siampl Duw, yn dra addas, yn mhob ystyriaeth.

Sylw....Gellir profi, drwy amryw resymau, fod y pedwerydd gorchymyn yn orchymyn moesol: 1. Nid yw yn seremoniol, oblegid, yn gyntaf, Trefnwyd ef cyn y cwymp, pryd nad oedd seremoniau yn bod: Yn ail, Mae yn ei rym wedi dirymu y seremoniau.—2. Nid gorchymyn yn y ddeddf wladol ydyw: yn gyntaf, Rhoddwyd ef cyn neillduo Israel i fod yn wladwriaeth: Yn ail, Mae yn ei rym wedi

eu gwasgaru, pryd nad ydynt yn wladwriaeth mwyach. Ië, mae yn ei rym i genedloedd ereill, cystal ag iddynt hwythau: ïe, pènodir dyeithriaid ynddo, 'Nac y dyeithr a fyddo o fewn dy byrth.'

Amryw Resymau yn profi fod y Pedwerydd Gorchymyn yn y Ddeddf Foesol.

1. Rhoddwyd ef i Adda cyn y cwymp, pan oedd efe etto yn ei berffeithrwydd.——Cafodd y Duw anfeidrol, yn ei feddwl ei hun, grëu rhyw filoedd aneirif o greaduriaid, ag ei air, o ddim. Nid o ran fod arno eisieu dim, oblegid yr oedd efe yn anfeidrol gyflawn o bob cyfoeth, dedwyddwch, a gogoniant, ynddo ei hun, erioed; ond oblegid bod yn ei feddwl, erioed, gyfranu daioni i ereill; a datguddiaw ei hun i filoedd o greaduriaid, o waith ei ddwylaw. Felly yn y pryd, ac yn ol y portreiad, oedd yn ei feddwl, er tragywyddoldeb, y gwnaeth efe y nefoedd, y ddaear, y môr, ac eu holl luoedd hwynt, mewn chwe diwrnod: ac efe a orphwysodd y seithfed dydd, oddiwrth ei holl waith, yn *crëu;* ac a fendigodd, ac a sancteiddiodd y seithfed dydd, neu y Sabboth. (Gen. ii. 3. Exod. xx. 8.) Gallasai Duw wneuthur yr holl grëedigaeth mewn ychydig oriau. Gallasai, hefyd, fod gannoedd o flynyddoedd yn crëu yr hyn a grëuwyd; ac etto bod yn anfeidrol ryfedd yn ei waith. Ond, dewisodd grëu y cwbl mewn chwe diwrnod; a gorphwysaw y seithfed dydd: er mwyn rhoddi siampl i ddyn weithiaw chwe diwrnod, a gorphwysaw y seithfed.

Mewn perthynas i orphwysiad Duw, nis gallwn feddwl fod blinder na lludded arno; oblegid, 'Ni flina ac ni ddiffygia Duw tragywyddoldeb.'—Dau beth a feddylir wrth ei fod yn gorphwysaw:——

1. Peidiaw crëu ychwaneg nag a grëodd efe. Exod.

xxxi. 17. Ac mai ar y seithfed dydd y peidiodd ac y gorphwysodd efe. Ni wnaeth un rhyw ychwaneg o greaduriaid. Ond, mae yn gweithiaw etto yn ei ragluniaeth, yn cynnal, ac yn rheoli ei holl greaduriaid. 'Y mae fy Nhad yn gweithiaw hyd yn hyn.' (Ioan v. 17.)——2. Ymfoddloni ac ymhyfrydu yn yr hyn a wnaeth: Megys mae y gair yn Ps. cviii. 31. 'Yr Arglwydd a lawenycha yn ei weithredoedd.' Edrychodd Duw ar ei waith yn niwedd pob un o'r dyddiau cyntaf, ac wele da ydoedd; etto yr oedd rhyw beth yn anorphen o hyd: Ond, wedi gorphen gwaith y chwe diwrnod, efe a edrychodd ar ei holl waith, ac wele *da iawn ydoedd*; yn enwedig, wedi gwneuthur dyn. Yr oedd pob peth yn dda wrth adeiladu preswylfod i ddyn, a phethau at ei wasanaeth; ond, wedi ei wneuthur ef, fel preswylydd yr adeilad hardd, wele pob peth yn dda iawn. Yna y gorphwysodd Duw, yr ymfoddlonodd, ac yr ymhyfrydodd yn yr hyn a wnaeth.—Yr oedd Duw yn ymhyfrydu mewn modd enwedig, yn ei amlygo ei hun yn y pethau a wnaeth; ac yn benaf yn y dyn. Er fod Duw yn gweled pob peth yn dda, etto, nid oedd efe yn gweled mo ei ddelw ar ddim a wnaethai, ond ar dyn.—Ac yna y bendigodd, ac y sancteiddiodd y seithfed dydd.

Yn gyntaf, *Bendigodd ef*:—Wrth ei fendigo, 1. Cyhoeddodd yn fendigedig, fel dydd ag yr oedd efe ei hun wedi cael llawer o hyfrydwch ynddo, wrth sylwi ar ei holl waith, mewn trefn wrth ei fodd; fel mae melldithio dydd, yn arwyddaw ei ffieiddiaw, ac ei gyfrif yn ddydd annedwydd.—2. Ei roddi fel bendith fawr i ddyn; yn ddydd i orphwys, yn ol siampl Duw: ïe, i fyned i mewn i ei orphwysfa ef. (Heb. iv. 3, 4.) I ymhyfrydu yn ngweithredoedd Duw, ac yn yr amlygrwydd o Dduw ac ei briodoliaethau, yn y pethau a wnaed: yr oedd ei fod, ei

ddoethineb, ei allu, ei ddaioni, &c. yn ymddangos yn hynod yn ei weithredoedd.

Yn ail, *Sancteiddiodd ef*:—1. Trwy ei siampl. 2. Trwy ei orchymyn.——Mae y gair sancteiddio, y rhan fynychaf, yn y Bibl, yn arwyddaw neillduo rhyw beth at wasanaeth ac addoliad Duw. Felly yma, hefyd, neillduo dydd o bob saith, i ddyn adael pob peth, a myned i addoli Duw; ac i ymorphwys ynddo. 'Y Sabboth a wnaethpwyd er mwyn dyn.' (Marc ii. 26.) Bendigwyd a sancteiddiwyd ef er mwyn dyn.——Er mwyn dyn y cymerodd Duw chwe diwrnod i greu y bydoedd, yn lle rhyw yspaid arall o amser. Er mwyn dyn y gorphwysodd efe y seithfed dydd.—Yn ei orphwysfa ef mae dyn yn cael gorphwysfa.

Mae genym y siampl mwyaf anghymharol i sancteiddiaw y Sabboth, sef siampl Duw ei hunan. ——Nid oes genym ond siampl dynion pechadurus, a diafol, i ei dori; ond y mae genym siampl Duw i ei sancteiddiaw.

Mae yn dra thebygol fod y patrieirch yn cadw y Sabboth. Nid ydyw bod heb sôn, amlwg, am gadw y Sabboth, o Adda hyd Moses, yn un prawf nad oeddynt yn ei gadw. Mae yr hanesiaeth mor fyr, yn cynnwys hanes dros 2500 o flynyddoedd, mewn ychydig iawn o le.—Dywed rhai nad oes un crybwylliad penodol am gadw y Sabboth wythnosol, o'r amser yr oedd Israel yn yr anialwch, hyd ddyddiau Dafydd; er, yn ddiddadl, eu bod yn ei gadw. Nid oes sôn, penodol, chwaith am enwaedu yr wythfed dydd, ar un plentyn gwryw, o Isaac hyd Ioan Fedyddiwr; etto, diammeu eu bod yn enwaedu ar eu plant, yn ol y drefn.—Yr ydym yn darllen yn fynych yn y gair am ddynion sanctaidd Duw yn aberthu; er nad ydym yn darllen am sefydliad aberthau, yn moreu-ddydd amser: ond, o herwydd

eu bod hwy yn arfer aberthu, ac yr arferiad hyny yn gymeradwy gan Dduw, yr ydym yn penderfynu fod aberthu yn arferiad o osodiad Duw. Felly am y Sabboth; yr ydym yn gweled yn amlwg fod ei sefydliad ef gan Dduw, er nad oes genym un hanes penodol, amlwg, am y patrieirch yn ei gadw: Etto, gan fod y Sabboth o osodiad Duw, yr ydym yn penderfynu ei fod dan eu sylw yn mhob oes.—Y mae llawer o eiriau, neillduol, yn peri i ni feddwl fod y Sabboth dan eu sylw yn barchus.

1. Mewn perthynas i Cain ac Abel, dywedir eu bod, wedi talm o ddyddiau, yn aberthu, (Gen. iv. 3.) neu ar ymyl y ddalen, yn niwedd dyddiau. Yn niwedd yr yspaid hwnw o ddyddiau, sef wythnos, yn ol meddyliau amryw.* Mae y gair yn golygu rhyw amser penodol, gan fod y ddau yn cydaberthu. Diammeu nad oedd Adda ddim wedi anghofio y Sabboth y pryd hwnw; ac y mae yn dra thebygol, hefyd, na bu efe ddim yn esgeulus yn ei gylch, heb ddywedyd am dano wrth ei blant, fel y dysgodd hwynt i aberthu.——2. Mae yn dra thebygol fod Noah yn cadw Sabboth yn yr arch. (Gen. viii. 10.) Sicr yw ei fod yn sylwi ar gylchiad y dyddiau, bob yn saith; oblegid saith niwrnod yr arosodd efe wedi anfon y gigfran allan, cyn danfon y golomen: a saith niwrnod yr arosodd heb anfon y golomen drachefn. (adn. 10.) Arosodd saith niwrnod y drydedd waith cyn ei hanfon, ac ni ddychwelodd hi mwyach ato ef. (adn. 12.)—Paham yr oedd efe yn aros saith niwrnod y waith gyntaf, yr ail, ac y drydedd waith, oni bai fod sylw neillduol ganddo ar y seithfed dydd? Gellir meddwl mai y Sabboth, neu y dydd cyntaf wedi y Sabboth, yr oedd efe yn ei hanfon allan; fel pe buasai

* Gwel Pool's Annotations.—Assembly of Divines' Annotations.—Geiriadur Ysgrythyrol, dan y gair Abel, &c. &c.

yn edrych, ar ol bod yn cadw Sabboth, drachefn a thrachefn, a oedd digofaint Duw yn llonyddu; ac a orphwysai efe drachefn yn ei greaduriaid.*——3. Tebygol iawn fod Abraham, ac ei deulu, yn cadw y Sabboth; oblegid y mae Duw wedi dywedyd am dano, y gorchymynai efe i ei blant, ac i ei dylwyth, ar gadw o honynt ffordd yr Arglwydd. (Gen. xviii. 19.) Sicr, ynte, fod cadw y Sabboth yn ffordd yr Arglwydd. Trachefn, mae Duw yn dywedyd fod Abraham yn cadw ei gadwriaeth, ei orchymynion, ei ddeddfau, ac ei gyfreithiau ef. (Gen. xxvi. 5.) Diddadl fod cadw y Sabboth yn un o'r deddfau.——4. Pwy all ddywedyd nad dyma y dydd yr oedd meibion Duw yn sefyll o flaen IEHOFAH. (Iob i. 6.)——5. Sonir am *wythnos*, fel cyfrif adnabyddus yn nheulu Laban. 'Cyflawna di *wythnos* hon.' (Gen. xxix. 27.) Ië, yr oeddynt yn cyfrif eu dyddiau, wrth yr wythnos, yn mysg y Cenedloedd, y rhai oeddynt holiol ddyeithr i'r ysgrythyrau.——6. Yr oeddynt yn sylwi ar gadw y Sabboth, fel hen drefn, cyn dyfod o honynt at Sinai: 'Ar y chweeched dydd y casglent ddau cymmaint o fara, &c.—Y fory y mae Sabboth sanctaidd i'r Arglwydd.' (Exod. xvi. 22, 23.) Nid oes dim sôn fod yr Arglwydd yn adgoffa iddynt am y Sabboth, cyn hyny, ar ol eu dyfodiad o'r Aipht. Yr oedd y Sabboth yn meddwl y bobl cyn hyny, ac am hyny hwy a barotôisant ato, drwy gasglu digon o fanna y chweched dydd, i eu cynnal ar y seithfed; er fod y penaethiaid wedi cynnefino â llwgr yr Aipht, nes yr oeddynt agos ei anghofio:—ond yr oedd Moses yn hysbys o hono.——7. Am fod gan Dduw eglwys yn y byd, yn mhob oes, 'yn golofn a sylfaen y gwirionedd,' yn sylwi ar ei ddeddfau, ac yn rhodiaw ynddynt, diammeu ei bod yn sylwi ar hwn hefyd.

* Gwel Dr. Owen on the Sabbath: page 82.

Yn drydydd, Mae gosodiad y gorchymyn yn y deng air deddf, yn dangos yn amlwg mai gorchymyn moesol ydyw: oblegid, os dywedir nad yw hwn yn orchymyn moesol, yna y canlyn, nad oes deg gorchymyn moesol yn bod; yr hyn sydd gwbl groes i air Duw, yn Deut. iv. 13. 'Efe a fynegodd i chwi ei gyfammod a orchymynodd i chwi ei wneuthur, sef y deng air.'

2. Llefarwyd ef gan Dduw ar Sinai, o ganol y tân, fel y naw ereill, yn nghlywedigaeth holl Israel. (Deut. iv. 12.) Llefarwyd y deddfau ereill, sef y seremoniol a gwladol, wrth Moses ei hunan yn y mynydd, ac nid yn gyhoeddus, lle y clywai y bobl oll.—1—Llefarwyd y deng air wrth yr holl bobl, i ddangos, 1. Fod pawb yn euog yn eu hwyneb:—2. Fod yn ddyledswydd ar bawb eu cadw:—3. I ddangos y byddai raid i bawb sefyll yn eu hwyneb yn y farn ofnadwy.

3. Ysgrifenwyd ef â bys Duw ar y llechau cerig, ddwywaith, fel y lleill: 1. I ddangos y buasent ar y galon gynt.—2. Arwyddwyd yn nhoriad y llechau, eu bod wedi eu llychwino a dryllio drwy bechod.—3. Ysgrifenwyd hwynt eilwaith, i ddangos yr ysgrifenai Duw ei gyfraith drachefn ar galonau ei bobl dan yr oruchwyliaeth efengylaidd. Deut. iv. 13.

4. Rhoddes Duw hwn gyda y naw ereill yn yr arch. 'Nid oedd dim yn yr arch ond y ddwy llech faen a osodasai Moses yno yn Horeb.' 1 Bren. 8. 9. Nid oedd dim yn yr arch ond y ddeddf oedd yn nghalon Crist; oblegid cysgod o hono oedd yr arch. Rhoddwyd y ddeddf foesol yn yr arch, ac y ddeddf seremoniol yn ei hystlys; un i ei chyflawni a chadarnâu, ac y llall i ei diddymu gan Grist, 'yr hwn yw diwedd y ddeddf, er cyfiawnder i bob un ag y sydd yn credu.'

5. Yr oedd y drugareddfa ar wyneb y gorchymyn hwn, yn gystal ag ar y lleill: cysgod o iawn Crist. Nid oedd Crist yn rhoddi iawn ond i'r ddeddf foesol yn unig.

6. Ni ddiddymwyd un o'r deg gorchymyn a lefarwyd gan Dduw o ganol y tân, ar Sinai; a ysgrifenwyd ar y llechau â bys Duw; a gadwyd yn yr arch; ac a guddiwyd â'r drugareddfa. Ni ddiddymwyd un o'r rhai hyn gan Grist. 'Na thybiwch,' medd efe, 'fy nyfod i dòri y gyfraith.' Mat. 5. 17. Nid parchus yn ei eglwys ef y neb a anmharcho ei orchymynion: 'Pwy bynag a dòro un o'r gorchymynion lleiaf hyn, ac a ddysgo i ddŷnion felly, lleiaf y gelwir ef yn nheyrnas Duw.' (adn. 19.) Hyny yw, ni fydd efe ddim yno; ni chaiff ei oddef yn yr eglwys efengylaidd; nac ei dderbyn i'r nefoedd.—— 'Nid â dim aflan i mewn yno.'

Y mae torwŷr y gorchymyn hwn yn euog o dòri yr holl gyfraith. 'Canys pwy bynag a gadwo y gyfraith i gyd oll, ac a ballo mewn un pwnc, y mae efe yn euog o'r cwbl. Canys y neb a ddywedodd, Na odineba, a ddywedodd hefyd, Na ladd. Ac os ti ni odinebi, etto a leddi, yr wyt ti yn troseddu y gyfraith.' Iago ii. 10, 11. Ië, os ti ni leddi, etto a halogi y Sabboth, yr wyt yn troseddu y gyfraith freninol, anghyfnewidiol, hon.——Mae y ddeddf foesol yn ddigyfnewid byth; âg y gorchymyn hwn ynddi. Mae hi yn anfeidrol dda, nis gellir ei newid er gwell: Mae Duw yn anfeidrol dda, nis gall efe ei newid er gwaeth. Cyfraith freninol ydyw, nis gall neb arall ei newid; am hyny, hi a fydd yn ddigyfnewid byth.

7. Prophwydwyd am y parch a roddir i'r Sabboth, dan yr oruchwyliaeth newydd, ac y bendithion a fyddai i'r rhai a'i parchent ef. 'Canys fel hyn y

dywed yr Arglwydd wrth y rhai dyspaddedig,' hyny yw, y rhai annerbyniol ac anghymeradwy dan y gyfraith; 'y rhai a gadwant fy Sabbothau, &c. Rhoddaf iddynt yn fy nhŷ, ac o fewn fy magwyrydd, le ac enw gwell na meibion ac na merched: rhoddaf iddynt enw tragywyddol, yr hwn ni thorir ymaith.' Esa. lvi. 4, 5.

Gwelwn yn amlwg, oddiwrth yr hyn a ddywedwyd, fod y pedwerydd gorchymyn yn orchymyn moesol, o ran ei sylwedd: sef ei fod yn gofyn dydd, o bob saith, i gael ei neillduo i addoli Duw, mewn modd parchus, tra byddo amser yn bod; ac wedi darfod amser bydd yn gofyn tragywyddoldeb i ei addoli ef, yn ddidor.

II. *Mae y Sabboth wedi ei newid, dan yr oruchwyliaeth efengylaidd, o'r seithfed dydd, i'r dydd cyntaf o'r wythnos.*——Etto, nid yw newidiad y diwrnod yn un prawf nad yw y gorchymyn yn orchymyn moesol: oblegid, nid y seithfed dydd, yn benodol, yn ol rhifedi y dyddiau wedi eu creu, ydyw swm y gorchymyn, ond dydd o bob saith; ac hefyd, hyd y gallant gadw coffadwriaeth, y seithfed o ran trefn; hyd nes y deuai Arglwydd y Sabboth i ei newid. Ond, yr oedd agos yn anmhosibl cadw y seithfed dydd, yn ol trefn, o'r dechreuad yn mhob man; wrth ystyried bod yr haul wedi sefyll yn nyddiau Iosuah; a bod yr haul wedi dychwelyd deg o raddau yn ei ol, ar ddeial Ahaz: heblaw ei bod yn ddydd yn y naill gwr i'r byd pan y byddo yn nos yn y cwr arall:—Ond dydd o bob saith ydyw mater y gorchymyn.——Felly, mae y Sabboth efengylaidd yn seithfed dydd yn bresennol, yn ol iaith y gorchymyn, sef seithfed ar ol chwech o weithio. Nid ydyw y gorchymyn yn dywedyd, Cofia y *seithfed* dydd i ei sancteiddiaw ef; ond, 'Cofia y *dydd*

Sabbòth,' &c. Trachefn, nid yw yn dywedyd yn Exod. xx. 11. 'Bendithiodd yr Arglwydd y *seithfed* dydd:' ond, 'Bendithiodd yr Arglwydd y *dydd Sabboth.*' Mae yn dywedyd, 'y seithfed dydd yw Sabboth yr Arglwydd dy Dduw.' A thrachefn, 'ac a orphwysodd y seithfed dydd,' h. y. Dyma Sabboth Duw, sef y seithfed dydd, ac ar hwn y gorphwysodd efe; ac am hyny, dyma ein Sabboth ninnau; hyd oni orphwyso Duw wedi gwneuthur gwaith newydd, mwy rhyfedd, sef gwaith iechydwriaeth, ac yna dylem newid y dydd i gofiaw hwnw yn hytrach.

Er bod y gorchymyn am gadw y Sabboth yn foesol, o ran ei sylwedd, bob amser, ac yn ei rym yn mhob oes o'r byd, etto, yr oedd yn arwyddaw pethau gwahanol; a dull gwahanol ganddynt ar ei gadw, yn ol y gwahanol oruchwyliaethau, neu gyfammodau y byddent yn byw danynt.——Rhyw orphwysiad, o eiddo Duw, oedd ei sylfaen dan bob goruchwyliaeth; ac i orphwysfa Duw mae y rhai a gredasant yn myned. Heb. iv. 3, 4. Arwydd o'r orphwysfa yma, moddion i eu mwynâu, a gwystl o berffeithiad mwy o honi, oedd, ac ydyw, y Sabboth, dan bob goruchwyliaeth.

1. Gorphwysiad Duw, y seithfed dydd, oedd sylfaen y Sabboth yn Eden; ac yn ei orphwysfa ef yr oedd gorphwysfa i'r dyn gael. Yn y boddlonrwydd a gafodd Duw, y'ngwaith ei ddwylaw, ar amlygrwydd o Dduw, a'i brïodoliaethau, yn y pethau a wnaed, yr oedd lle i ddyn ymfoddloni, ac ymddifyru, ac ynorphwys yn barâus. Yr oedd y Sabboth iddo yn arwyddaw ei fod yn cael gorphwysfa yn y pethau y gorphwysodd Duw ynddynt. h. y. Ei fod yn ymddifyru, ac yn ymbleseru, yn y ddadguddiad o Dduw a'i ddoethineb, ei allu, a'i ddaioni, yn y pethau a wnaed; yn enwedig yn y cyfammod.

2. Yr oedd y Sabboth yn fodd i orphwys yn y

pethau hyn; i gael gadael heibio y llafur sanctaidd yn Eden, i ymroddi yn hollol i addoli Duw a'i fwynâu. Yr oedd yn wystl hefyd y cai y dyn fyned yn mlaen i'r orphwysfa, os byddai iddo ufuddâu. Ond collwyd yr orphwysfa hon yn fuan, drwy gwymp dyn. Trwy y cwymp, aeth dyn, yr hwn oedd ar ddelw Duw, ac yn dda iawn yn ei olwg, yn ffiaidd ganddo; darostyngwyd y creadur i oferedd; aeth y ddaear dan felldith Duw; ïe, mewn ystyriaeth, collodd Duw ei orphwysfa gynt. Collodd dyn ei orphwysfa yn y dadguddiad o Dduw, nes oedd efe yn ffoi oddiwrtho, pan glywodd ei lais; felly, daeth Duw i fod yn ddychryn iddo yn lle gorphwysfa mwyach, oni chair hi ar sail cyfammod arall, a than oruchwyliaeth arall.——Ond o ei anfeidrol drugaredd ac ei ddaioni, dadguddiodd Duw ei Fab, yr ail ddyn, pen y cyfammod newydd, yn y cyhoeddiad o Had y Wraig. Gen. iii. 15. Trefnodd Duw aberthau i gysgodi aberth ac iawn ei Fab; ac a aroglodd arogl gorphwysdra yn y rhai hyny fel yr oeddynt yn cysgodi aberth Crist. Gen. iii. 21. a'r viii. 21. Dïammeu fod dynion, y rhai oedd yn cael golwg arno drwy ffydd, yn cael gorphwysdra ynddo hefyd, gyda Duw. Llawenychodd Abraham wrth weled ei ddydd ef, o bell.—Dyma sylfaen Sabboth i Dduw a dyn byth!

Mewn perthynas i'r Sabboth, dan oruchwyliaeth Sinai, yr oedd yn arwyddaw amryw bethau, perthynol i'r oruchwyliaeth hono; ac amryw bethau yn eu dull yn ei gadw, perthynol i'r oruchwyliaeth hono yn unig.——Gorphwysfa Duw oedd sylfaen eu gorphwysfa hwynt yno: 'A gwnant i mi gyssegr, fel y gallwyf drigo yn eu mysg.' Exod. xxv. 8. Yr oedd Duw yn gorphwys yn y babell, ac yr addoliad oedd yno, fel yr oedd yn cysgodi Crist, a phethau efengylaidd. Yr ydoedd yn ymhyfrydu

yn y dadguddiad oedd efe yn ei roddi o hono ei hun yno, fel Duw iechydwriaeth, yn ymorphwys ar y drugareddfa: Yn ganlynol, yr oedd lle iddynt hwythau orphwys, yn y dadguddiad o Dduw, fel Duw iechydwriaeth, yn y seremoniau ac y cysgodau hyny; y Sabboth yn arwyddaw eu bod yn ymorphwys yn yr Arglwydd; ac yr oedd yn fodd, neu gyfrwng, hefyd, drwy ba un yr oedd iddynt gael dadguddiad helaethach o hono, wrth ymarfer ag ei waith; ac ymorphwys yn fwy tawel arno, ac yn ei iechydwriaeth. Yr oedd y Sabboth yn wystl o'r orphwysu yn Nghanaan, tra buant yn yr anialwch, ac yn enwedig o'r orphwysfa dragywyddol hefyd. Yr oedd Duw, hefyd, yn ei achos, yn gorphwys yn ngwlad Canaan; ac ei bobl yn cael gorphwys yno dan ei aden; ond nid oedd hon ond gorphwysfa gysgodol; nid oedd yn orphwysfa gyflawn, oblegid, pe buasai yn gyflawn, ni buasai eisieu addaw un arall. (Heb. iv. 8.)

Yr oedd Israel yn cadw y Sabboth yn goffadwriaeth am eu gwaredigaeth o'r Aipht: 'Cofia mai gwas a fuost ti yn ngwlad yr Aipht, a'th ddwyn o'r Arglwydd dy Dduw allan oddi yno â llaw gadarn, ac â braich estynedig: am hyny y gorchymynodd yr Arglwydd dy Dduw i ti gadw dydd y Sabboth.' Deut. v. 15. Mae crëedigaeth y byd, a roddir fel annogaeth i gadw y Sabboth, yn Exod. xx. 8, 9, 10. yn cael ei adael allan yma; ac y waredigaeth o'r Aipht yn cael ei roddi i mewn yn y lle hyny; a hyn yn perthyn yn benodol i'r oruchwyliaeth hono. Tybir oddiwrth y gair hwn, mai ar y Sabboth y daeth Israel drwy y Môr Coch.* Yr oedd dyfodiad Israel, yn orfoleddus, drwy y Môr Coch yn cysgodi y prynedigaeth, drwy Grist, o gaethiwed gwaeth nâ

* Gwel. *Ainsworth* on Deut. v. 15. *J. Edwards'* Perpetuity and Change of the Sabbath.

chaethiwed yr Aipht. Ac os gosodwyd iddynt hwy gymeryd y waredigaeth yn sylfaen i gadw Sabboth, yn hytrach nac yr orphwysfa wedi crëu y byd, dïammeu fod yn gweddu i ni gymeryd adgyfodiad Crist o'r bedd, fel pen corph ei eglwys, yn destun, ac yn sylfaen Sabboth, tra parâo amser. Yr oedd Crist, yn gysgodol, yn y golofn niwl a thân, yn dyfod i fynu o'r Môr Coch o flaen byddin Israel gynt; ond daeth Crist yn sylweddol, fore y trydydd dydd, o flaen byddinoedd ei *Israeliaid yn wir*, i fynu o ddyfnach môr. Er iddo gael glân, mewn ystyriaeth, gyda y gair GORPHENWYD, etto, ni ddaeth ei gorph i'r lân hyd fore y dydd cyntaf o'r wythnos; ond ar y bore hwn, daeth i'r làn yn amlwg, a gorfoleddus, fel blaenor ei holl bobl:—daw y llesgaf o'i bobl i'r lân drwyddo ef; am hyny mae yn addaw cadw Sabboth, tra byddo amser yn bod, i gofiaw y fuddugoliaeth werthfawr hon.——Yr oedd yn addas iàwn newid y dydd Sabboth, dan yr oruchwyliaeth efengylaidd:—Cawsant hwy newid testun eu Sabboth, dan yr oruchwyliaeth hono; cawsom ninnau newid y testun, ac y dydd hefyd, dan yr oruchwyliaeth newydd.

Yr oedd amryw bethau yn eu dull yn cadw y Sabboth, perthynol yn unig i'r oruchwyliaeth hono:—Megys, pènodi taith dydd Sabboth:—Peidiaw llosgi tân yn eu holl anneddau:—Llabyddiaw â meini am ei dorj, &c.——Er nad ydwyf yn meddwl y dylem ni arfer y pethau hyny, yn bresennol, etto, mae addysgiadau i ni gael oddiwrthynt.——Dylem weled y perygl o deithiau bydol, dianghenrhaid, yn eu gwaith yn pènodi taith Sabboth:—Ac y perygl o arlwyaeth, anghymedrol, yn y gwahardddiad iddynt losgi tân yn eu holl anneddau:—Ac atgasrwydd y pechod o halogi y Sabboth, yn y gosp hono o labyddio â meini.

3. Am y Sabboth dan yr oruchwyliaeth newydd: Y mae pob peth yn newydd, yma. (2 Cor. v. 17.) Gan fod pob peth o newydd, yr oedd yn addas iawn newid y dydd, i gael Sabboth newydd. Yr oedd yma greedigaeth newydd, (Esa. lxv. 17.) am hyny, yr oedd yn addas bod gorphwysfa newydd. Yr oedd gwaith prynedigaeth yn fwy gwaith nâ chreu bydoedd.—1. Gwaith ei fysedd yw y greedigaeth; dyosgodd ei fraich gadarn i wneuthur iechydwriaeth. —2. Chwe diwrnod y bu Duw yn gwneuthur y bydoedd: Bu Crist, y Duw cadarn, Bedwar-ar-ddeg-ar-ugain o flynyddoedd, o amser ei genedliad, hyd fore y trydydd dydd, heb fynyd segur chwaith, yn gweithiaw iechydwriaeth ddigonol i ni.—3. Creodd y bydoedd heb un gwrthwynebiad o un lle; ond wrth wneuthur iechydwriaeth, yr oedd y byd hwn, a gallu y tywyllwch, yn ei erbyn; tywysogaethau ac awdurdodau, a chryfder y gelyn.—4. Nid aeth Duw ddim yn dlawd wrth wneuthur y greedigaeth, er ei maint; ond wrth wneuthur iechydwriaeth, 'Yr hwn oedd gyfoethog a ddaeth er ein mwyn ni yn dlawd: ie, heb le i roddi ei ben i lawr.' Do, efe a chwysodd y gwaed, wrth bwys y gwaith mawr yma.—Ond, er maint y gwaith, ac y rhwystrau, GORPHENWYD. 'Aeth i mewn i ei orphwysfa ef, gorphwysodd oddi wrth ei weithredoedd ei hun, megys y gwnaeth Duw oddiwrth yr eiddo yntau.' h. y. Gorphenodd Crist waith prynedigaeth, yn llwyr, fel y gorphenodd y Tad waith greedigaeth; ac aeth i ei orphwysfa fore y dydd cyntaf, megys yr aeth y Tad y seithfed dydd.

Gorphwysodd; 1. Gorphenodd yr holl waith oedd i ei wneuthur mewn darostyngiad,—gorphwysodd oddiwrth ddyoddef chwaneg;—oddiwrth dalu y ddyled—y cwbl wedi ei dalu yn llwyr. Er hyny, y mae gwaith yn cael ei ddwyn yn mlaen ganddo etto, ar ddeheulaw y Tad, sef eiriol dros droseddwyr,

Er i'r Tad orphwys oddiwrth greu, y mae yn cynnal ac yn llywodraethu ei greaduriaid etto: Felly Crist; er gorphen o hono brynu, a gorphwys oddiwrth y gwaith hyny, etto mae efe yn eiriol dros y prynedigion yn barâus; ac yn eu dal, ac eu cynnal âg ei ras, ac ei nerth, nes dyfod o honynt adref yn lân.—2. Ymhyfrydodd yn yr hyn a wnaeth: Edrychodd ar yr hyn a wnaeth o'r bru i'r bedd, ac wele, 'da iawn ydoedd.'

Gorphwysodd y Drindod yn y gwaith a orphenodd Crist.—1. Ymhyfrydodd y Tad yn y dadguddiad o ei holl briodoliaethau yn wyneb Iesu Grist, ac yn yr iawn digonol a gafodd cyfiawnder ganddo; ac yr anrhydedd a gafodd ei gyfraith sanctaidd ef, yn mywyd ac angeu Crist.—2. Ymhyfrydodd y Mab yn ei waith, wedi ei orphen yn gyflawn wrth ei fodd. Nid oedd achos ganddo i ofidiaw oblegid dim a fu yn ei fywyd erioed—y cwbl yn anfeidrol wrth ei fodd.—3. Yr oedd yr Ysbryd Glân, hefyd, yn ymorphwys yma, ac yn ymhyfrydu yn cymeryd o eiddo y Mab, i fynegi i ei bobl—wrth ei fodd yn ei ogoneddu ef yn y byd, &c.——Dyma le i ninnau orphwys yn dawel byth: 'Am hyny byddwn ddyfal i fyned i mewn i'r orphwysfa hono.' Heb. iv. 11.

Mae yr enaid wedi crwydro oddiwrth Dduw, pan y collodd orphwysfa Eden; ac, er chwilio a phrofi pob man, nid oes orphwysfa nes dyfod yma. Nid oes un man a dal i enaid orphwys, ond yn y lle mae Duw yn gorphwys.—1. Dyma le i gael heddwch â Duw, drwy waed Crist; a mwynâu y tangnefedd sydd uwchlaw pob deall.—2. Dyma le i'r enaid gael ei lenwi, hyd nes tori ei syched at bethau ereill: 'Ni sycheda yn dragywydd.'—3. Dyma le i ymhyfrydu, ac ymddigrifaw byth, yn y dadguddiad o Dduw yn Nghrist. Nid ein brawychu,

ac ein gyru i ffoi, y mae yr olwg arno yma; ond ein nesu ac ein tynu ato ef.

Dyma sylfaen ein Sabboth ni byth mwy, sef ei orphwysfa ef.—Dewisodd Crist, Arglwydd y Sabboth, y dydd cyntaf o'r wythnos, i fyned i mewn i ei orphwysfa: am hyny, dyma y dydd y mae ei deulu yn ei ddewis, i orphwys yn ei orphwysfa ef.—Dywedaf, fel y dywedodd *Ignatius*, y merthyr bore hwnw, 'Bydded i bawb sydd yn caru Crist, barchu dydd yr Arglwydd; y goreu ac y mwyaf rhagorol o'r dyddiau, ar yr hwn y cyfododd ein Bywyd.'

Mae yn amlwg mai y dydd cyntaf o'r wythnos yw y Sabboth efengylaidd:

1. Prophwydwyd am newidiad y Sabboth, o'r seithfed i'r dydd cyntaf o'r wythnos: 'Bydd ar yr wythfed dydd, ac o hyny allan, i'r offeiriaid offrymu eich poeth-offrymau, a'ch ebyrth hedd: a mi a fyddaf foddlawn i chwi, medd yr Arglwydd Dduw.' Ezec. xliii. 27. Mae yn amlwg fod y prophwyd yn prophwydaw yn y pennodau yma, am yr eglwys dan yr oruchwyliaeth efengylaidd; felly, mae yn rhaid deall, wrth yr wythfed dydd yma, rhyw ddydd neillduol, dan yr oruchwyliaeth efengylaidd. Nid oes dim dyddiau i sylwi arnynt, dan yr oruchwyliaeth hon, ond y Sabboth. Y mae yr holl wyliau ereill wedi eu diddymu, oblegid mai cysgodol oeddynt: mae Crist yn ddiwedd i'r rhai hyny oll. Yn ganlynol, rhaid deall wrth yr wythfed dydd, y Sabboth efengylaidd; y dydd cyntaf wedi y seithfed, neu Sabboth yr Iuddewon. Nyni a gawn prophwydoliaeth arall, yn Ps. cxviii. 24. 'Dyma y dydd a wnaeth yr Arglwydd, gorfoleddwn a llawenychwn ynddo.' Y mae Psalmydd yn prophwydaw am Grist, ei farwolaeth, ac ei adgyfodiad, yn y Psalm hon. Gwel Act. iv. 10, 11. Cymhwysir y geiriau

yno, at angeu ac adgyfodiad Crist. Er ei wrthod gan yr adeiladwyr, sef yr Iuddewon, ac ei groeshoelio; ac ei gladdu; etto, cyfododd o'r bedd i fod yn ben congl-faen, etholedig a gwerthfawr, yn adeilad fawr ei eglwys, dros byth. 'Dyma y dydd,' sef y dydd y cyfododd Crist o'r bedd, wedi ei wrthod ac ei ladd, gan yr adeiladwyr, sef y proffeswyr Iuddewig. Dyma y dydd i ei goffaw byth:—bore y trydydd dydd, y dydd cyntaf o'r wythnos; dydd wedi ei neillduo oddiwrth ddyddiau ereill, tra parao amser, i orfoleddu ac i lawenychu yn y Crist a gyfododd o'r bedd. Fel mae yr haul naturiol, yn gwneuthur dydd naturiol âg ei adgyfodiad; felly, y gwnaeth Crist, Haul Cyfiawnder, ddydd Sabboth âg ei adgyfodiad o'r bedd—gwnaeth ef yn Sabboth âg ei adgyfodiad.

2. Yr oedd y dysgyblion yn ymgynnull ar dydd cyntaf o'r wythnos, a Christ yn dangos ei foddlonrwydd iddynt, trwy ymddangos yn eu plith. Yr oedd y dysgyblion yn ymgynnull, brydnawn y dydd y cyfododd Crist o'r bedd: 'A hi yn hwyr, y dydd cyntaf hwnw o'r wythnos,' sef y dydd y cyfododd Crist o'r bedd; 'lle yr oedd y dysgyblion wedi ymgasglu rhag ofn yr Iuddewon, daeth yr Iesu, ac a safodd yn y canol, ac a ddywedodd wrthynt, Tangnefedd i chwi.' Fel pe dywedasai, yr ydwyf yn foddlawn i chwi ymgynnull ar y dydd hwn. Trachefn, yn mhen wyth niwrnod, sef wythnos o'r un dydd, ymgynnullasant wedi hyny; lle gwelwn eu bod yn dechreu ei arfer yn wythnosol. 'Safodd yr Iesu yn y canol,' drachefn, 'ac a ddywedodd, Tangnefedd i chwi.' adn. 26, Fel pe dywedasai, Yr ydwyf yn foddlawn i'r arfer yma barhau, sef ymgynnull ynghyd y dydd cyntaf o'r wythnos. Ar y dydd cyntaf o'r wythnos, y tywalltwyd yr Ysbryd Glân ar yr apos-

tolion; y dydd cyntaf wedi y Sabboth oedd y Pentecost. 'Ac wedi dyfod dydd y Pentecost, yr oeddynt oll yn gytun, yn yr un lle.' Act. ii. 1, 2. Lef. xxiii. 16. Wele, etto, brawf eu bod yn parâu i ymgynnull ar y dydd cyntaf o'r wythnos.—'Ac yn ddisymwth y daeth sŵn o'r nef, megys gwynt nerthol yn rhuthraw, &c. A hwy a lanwyd oll o'r Ysbryd Glân.'——Cyssegrodd yr Ysbryd Glân, y dydd cyntaf, drwy dywalltiad rhyfedd iawn ar y bobl. Dwysbigwyd tair mil y bore, fel blaen-ffrwyth o lwyddiant yr efengyl, ar y dydd cyntaf o'r wythnos. Ar y dydd cyntaf o'r wythnos yr oedd y dysgyblion yn dyfod y'nghyd i dori bara. Act. xx. 7. Gan mai dyma y dydd oeddynt yn ei ddewis, i weinyddu yr odinâad sanctaidd hon, diammeu, mai y dydd hwn oeddynt yn ei gadw yn Sabboth. Ar y dydd cyntaf y byddent yn casglu i'r tlodion, 1 Cor. xvi. 2. gan hyny, y mae yn amlwg, mai ar y dydd hwn y byddai eu cynnulleidfäoedd ynghyd.

Diddadl, mai y dydd cyntaf o'r wythnos y mae Ioan yn ei alw, 'Dydd yr Arglwydd.'—'Yr oeddwn yn yr Ysbryd ar ddydd yr Arglwydd.' Dad. i. 10 h. y. Yr oeddwn wedi fy llenwi âg Ysbryd Duw, yn ei waith.—Mae yn cael ei alw dydd yr Arglwydd, i ddangos, fod hawl neillduol gan yr Arglwydd Grist ynddo; megys y mae yr ordinâad hono, yn cael ei galw swper yr Arglwydd; neu fel yr oedd y seithfed dydd yn cael ei alw, Sabboth yr Arglwydd.—Y mae yn dra sicr, i Grist hysbysu i ei ddysgyblion, mai y dydd cyntaf o'r wythnos oedd i fod yn Sabboth iddynt. Dywedodd Crist i ei ddysgyblion, ynghorph y deugain niwrnod y bu efe gyda hwynt, wedi ei adgyfodi o'r bedd, 'y pethau a berthynent i deyrnas Duw.' Act. i. 3. Diammeu iddo hysbysu iddynt

lawer o bethau, am drefn yr eglwys, nad oes genym ni ond siampl yr apostolion am danynt;—ac y mae hyny yn ddigon.

Mae yn eglur, oddiwrth y pethau y ddywedwyd fod y pedwerydd gorchymyn, o ran ei sylwedd, yn foesol, ac yn ei rym, ac ei fanylrwydd, yn mhob oes a chenedl—a bod y diwrnod wedi ei newid gan Grist, Arglwydd y Sabboth, o'r seithfed dydd, i'r dydd cyntaf o'r wythnos—ac nad oes awdurdod gan neb, i ei newid ef byth, mwyach—ac ni newid Duw ef mwy, oblegid nad oes un oruchwyliaeth arall i ddyfod byth.——Dyma y dyddiau diweddaf.

III. *Mewn perthynas i sancteiddiaw y Sabboth,*——Gan fod y gorchymyn hwn yn orchymyn moesol, a pharâus, y mae 'Cofia y dydd Sabboth, i ei sancteiddiaw ef,' etto yn ei rym; ac yn dywedyd felly wrthym ni, cystal ag wrth yr Iuddewon gynt: am hyny, dylem ymofyn, yn fanwl, pa fodd y mae i ni ei sancteiddiaw ef: a pha beth sydd yn gynnwysedig mewn sancteiddio y Sabboth.

Sylwiwn ar ddau beth; sef,

Yn gyntaf, Pa faint o amser y mae y gorchymyn yn ei ofyn i ni i ei sancteiddiaw.

Yn ail, Pa faint o'r dyn, ai rhanau o hono, ai ynte yr holl ddyn, y mae y gorchymyn yn ei ofyn at y gwaith o sancteiddio y Sabboth.

1. Am yr amser: *Y dydd,* nid rhan o hono, a ofynir. Wrth y dydd, y deallir yma, y seithfed ran o'n hamser: sef pedair awr ar hugain. Nid o godiad haul hyd ei fachludiad ydyw; pe felly, ni byddai yn llawer o wledydd, ond dwy awr neu dair o Sabboth, dros amryw wythnosau, yn y gauaf: Ac hefyd ni byddai y Sabboth gyda ninnau, hanner cyhyd yn y gauaf a'r hâf. Heblaw hyny, nid yw dynion yn foddlawn i fesur y chwe diwrnod felly: di-

ammeu, ynte, na ddylem ni ddim mesur dydd Duw, mesur, yr hwn ni chymerwn ar ein dyddiau ein hunain. Pa bryd mae yr amser yma yn dechreu, sydd mewn dadl gan rai: ond mae y rhai mwyaf duwiol, a sobr, yn cydsyniaw mai hanner y nos, nos Sadwrn y mae yn dechreu; ac yn parâu hyd hanner y nos, nos Sabboth. Y mae hyn yn beth tra thebygol, yn wyneb y gair. 'Cyfododd Crist o'r bedd a hi etto yn dywyll.' Marc xvi. 2. Ymddangosodd yn fore i Mair. adn. 9. Hefyd, ymddangosodd yn hwyr i ei ddysgyblion. Ioan xx. 19. Rhoddodd siampl, drwy hyn, i ei gadw yn sanctaidd, o foreu hyd hwyr. Yn Psalm. xcii. 2. Psalm ar y dydd Sabboth, y dywedir, mai 'da mynegu y bore am drugaredd Duw, a'i wirionedd y nosweithiau:'— treulio y dydd, fore a nos, i gofiaw a mynegu am ei drugaredd a'i wirionedd ef a'i holl waith. Dylem gymeryd lleiaf ag a allom o'r pedair awr ar hugain yma, i gysgu, bwyta, ymwisgo, ynghyd â phethau ereill, llwyr angenrheidiol, yn yr amser. Ac, nid yn unig dylem ochelyd cymeryd amser anghymedrol i gysgu; ond dylem hefyd sancteiddiaw y Sabboth tra byddom yn cysgu yr oriau hyny o hono; trwy fyned i gysgu â phethau addas i'r Sabboth ar ein meddyliau; a gweddio ar i Dduw gadw ein meddyliau, hyd yn nod yn ein cwsg, yn yr agwedd sanctaidd hono; fel y gallom ddeffro yn brydlawn y Sabboth, gyda phethau addas i natur y dydd sanctaidd. Felly, am fwyta, ac yfed, a gwisgo. Dylem nid yn unig ochelyd glythineb, meddwdod, a balchder; ond dylem hefyd ochelyd treulio amser yn anghymedrol, i arlwyo bwydydd, ymwisgo, &c. na bod yn achlysur i neb o'n teuluoedd i golli amser i addoli Duw, drwy borthi ein cnawd, a'n blys ni. Dylem, hefyd, astudio pa fodd i fwyta ac yfed, fel y bydd ein natur yn fwyaf effro a hwylus i addoli

Duw. Dylem dreulio yr holl ddydd, ond amser angenrheidiol anhebgorol at bethau natur, i addoli Duw yn ddirgel, yn deuluaidd, ac yn gyhoeddus; mewn sancteiddrwydd a pharch. Nid oes un awr o'r Sabboth yn sancteiddiach na'u gilydd; oblegid y dydd y mae Duw wedi ei bènodi yn y gair, ac nid rhyw oriau neillduol o hono. Am hyny, y mae eglwys Rhufain i ei beiaw, am ei bod yn barnu, nad yw sancteiddrwydd y Sabboth yn parâu, ond tra byddont hwy yn darllen y *Mass*. Ereill, hefyd, a gymerant arnynt barchu y Sabboth, tra parâo yr addoliad yn rhyw fan, a phan elo yr addoliad drosodd, y maent yn rhydd i ei dreuliaw i wledda, yfed, gwag-ymddyddan, a chwedlena ofer, &c. Y mae y rhai hyny i ei beiaw, a'r sydd yn treuliaw oriau o'r Sabboth i gysgu, mwy nag y sydd angenrheidiol i eu natur; ie, mwy nag y maent arferol o gysgu ddyddiau ereill. Felly y maent yn gwrthod mesur Duw, ac yn ail fesur ei ddydd sanctaidd ef, â'u llinyn cnawdol, pechadurus, eu hunain.

2. Mae y gorchymyn yn gofyn yr holl ddyn, nid rhanau o'r dyn: 'Cofia *di*,' y dyn; nid cofia di y corph, neu, tydi yr enaid, ond, *tydi* y *dyn*, gorph ac enaid. Yr holl ddyn ydyw y gwrthddrych y mae cyfraith Duw yn ei ofyn: 'Câr yr Arglwydd dy Dduw, â'th *holl* galon, ac â'th *holl* enaid, ac â'th *holl* feddwl, ac â'th *holl* nerth.' Deut. vi. 5. Mat. xxii. 37. Gwelwn mai *holl* ydyw iaith y gyfraith, nid rhan. Felly, y gellir dywedyd yma, Cadw yn sanctaidd y dydd Sabboth, â'th *holl* galon, â'th *holl* enaid, â'th *holl* feddwl, ac â'th *holl* nerth; y dyn i gyd. Mae yn gofyn i'r holl ddyn ymattal oddiwrth y pethau gwaharddedig, a gwneuthur y pethau gofynedig. Mae yn gofyn yr holl enaid; y mae gwaith y corph, heb yr enaid, yn gnawdol a rhagrithiol.

1. Y Cof.—Rhaid peidiaw dal yn y cóf orchwedlion yr wythnos aeth heibio; a'r pethau a fwriadwyd at yr wythnos i ddyfod; nac ymddyddan oferwag a chwedlau a glybuwyd: ond cofio mai dydd Sabboth Duw ydyw, a chofio y dyben o hono: yn enwedig, cofio y gwaith a wnaeth Crist, ac a lwyr orphenodd; ac wedi ei orphen, a aeth i mewn i ei orphwysfa, fore y trydydd dydd; yn ei orphwysfa ef, y mae sylfaen ein Sabboth ninnau:--Dyma le i enaid orphwys.

2. Y Deall.—Rhaid ei gadw â'r deall: rhaid gadael heibio fyfyriaw ar bethau bydol; peidio âg astudiaw a dychymygu, pa fodd i ddwyn pethau daearol yn mlaen, amser i ddyfod. Ond ar Dduw, yn wyneb Iesu Grist, ac ar ei feddwl yn ei air, ac ar ogoniant ei briodoliaethau, fel y maent wedi ymddangos, yn Nghrist, o blaid ein hiechydwriaeth ni. Gweled mawredd gwaith, a dyfnder meddyliau Duw, nes y cyfodo syched ynom am eu deall yn well. Ps. xcii. 5.

3. Yr Ewyllys.—Rhaid ei gadw â'r ewyllys: 'Heb wneuthur dy ewyllys dy hun.' Esa. lviii. 13. Peidio â chymeryd ein hewyllysiau cnawdol, llygredig ein hunain, yn rheol mewn dim; ac ymdrechu i farweiddiaw llygredd ein hewyllysiau trwy yr Ysbryd, (Rhuf. viii. 13.) a chael ein hewyllysiau yn fwy unol âg ewyllys Duw; fel y gallem ddywedyd o'n calonau, 'Bydded dy ewyllys ar y ddaear:'—Ewyllysio a dymuno gogoneddu enw Duw, a llwyddiant ei efengyl, ac adeiladaeth ei eglwys:—Ewyllysio ei fwynâu yn ei waith, ar ei ddydd sanctaidd; fel drwy hyny, y delom yn fwy tebyg iddo, a ffyddlawn drosto yn y byd.

4. Y Serchiadau.—Rhaid cadw y Sabboth â'r serchiadau. Addoliad cythreulig yw addoliad heb y serch yn y gwaith. Mae y cythreuliaid yn credu ac yn crynu, ond nid ydynt yn credu ac yn

caru. Braint a dyledswydd, ar y Sabboth yn enwedig, yw cael diddyfnu y serch oddiwrth y creadur, a'i hoeri at y byd, a'r pethau a welir; fel y gallom lawenychu yn fwy cyflawn yn ngwaith Duw. 'Llawenychaist fi, O Arglwydd, â'th weithred: yn ngwaith dy ddwylaw y gorfoleddaf.' Ps. xcii. 4.——Llawenychu wrth fyfyrio arno yn ei waith yn creu, ei waith yn cynnal, ac yn llywodraethu: Ond, yn enwedig, yn ngwaith y prynedigaeth drosom, a gwaith ei Ysbryd ynom; fel y byddom yn galw y Sabboth yn hyfrydwch. Esa. lviii. 13. Fel y gwnelom yr holl ddyledswyddau, perthynol i'r Sabboth, gyda hyfrydwch; oddi ar gariad tu ag at Dduw a'i waith; ac nid oddi ar egwyddor ddeddfol, ac ofn caethiwus.

5. Y Gydwybod.—Rhaid bod y gydwybod mor effro, fel nad allo oddef i ni wneuthur dim croes i sancteiddio y Sabboth:—Ac er hyn, yn ymorphwys yn dawel yn iawn Crist, a'i aberth digonol ef:—'Yr aberth difai i Duw.' Heb. ix. 14. Fe weddai i'r gydwybod ymorphwys yn dawel yn hwn.—Bu dyddiau llafurus, poenus ar gydwybodau rhai, nes cael gafael ar yr aberth anfeidrol hwn; ond, yma, cafodd y gydwybod boenus, lluddiedig, a brawychus, Sabboth tawel.

Y mae yn ofynedig bod y corph, hefyd, ac ei holl aelodau, yn arfau cyfiawnder i Dduw, mewn modd neillduol. Ei fod yn cael ei neillduo, nid oddiwrth bethau pechadurus, yn unig, y mae hyny yn ddyledswydd bob dydd; ond, oddiwrth bethau bydol hefyd, pethau cyfreithlawn ddyddiau ereill. ——1. Peidio edrych â'r Llygaid, ar wrthddrychau cnawdol a bydol—sy 'n tueddu i dynu y meddwl a'r myfyrdod oddiwrth bethau sanctaidd Duw.——2. Y Clustiau yr un modd, i beidio gwrando ymadroddion llygredig a bydol; neu gerddoriaeth gnawdol, yr

hyn sydd yn llygru yr enaid. Ond, rhoddi y clustiau i wrandaw gair Duw, ac ymddyddanion ysbrydol a sanctaidd.——3. Y Tafod i beidiaw llefaru geiriau llygredig, daearol, a segur. 'Na dywedyd dy eiriau dy hun.' Esa. lviii. 13. Peidiaw dywedyd dim geiriau perthynol i dy bleser cnawdol, na'th orchwyl bydol, na hanesion gwledydd, na chymmydogion, &c. Ond, neillduo y dydd i ymddyddan am Dduw, a'i waith, darllen ei air, gweddïo arno, canu ei fawl, &c.——4. Y Traed a'r Dwylaw, drachefn. 'Troi dy droed oddiwrth y Sabboth.' Esa. lviii. 13. Troi oddiwrth bethau croes i sancteiddiaw y Sabboth, ac achlysuron i ei halogi. Na fydded iddynt dy gario i negesau bydol, na gwag-rodiana, na chwareyddiaethau ofer. Ond, bydded i ti eu defnyddio at waith Duw, i'th gario i foddion gras, ac i gynnulleidfäoedd y saint. Na fydded i dy ddwylaw, yr un modd, wneuthur dim naturiol, ond a fyddo yn gwbl angenrheidiol.—Na fydded i hyn chwaith fod yn faich, ond yn hyfrydwch ac yn fraint fawr genym. 'Troi dy droed oddiwrth y Sabboth:' h. y. Troi gogwydd dy enaid, a dy serchiadau, oddiwrth bethau sydd waharddedig ar y Sabboth: Fel y byddo rhedfa dy serchiadau yn naturiol at bethau sanctaidd, perthynol i'r dydd; ac y byddo yn hawdd i ti alw y Sabboth yn hyfrydwch, a'r holl ddyledswyddau perthynol iddo yn hyfrydwch hefyd.

Y mae, mewn sancteiddio y Sabboth, ddau beth;—1. Gorphwys oddiwrth waith daearol, cyffredin.—2. Gwneuthur gwaith sanctaidd, neillduol; sef addoli Duw, ac ei wasanaethu ef, yn ol ei air, ac ei drefn ei hun.

1. Na wna ynddo ddim gwaith, h. y. dim gwaith bydol, daearol, a ellir ei wneuthur cyn hynv, neu, a all aros heb ei wneuthur hyd ddydd arall. Ië, na wna ddim yr amser mwyaf prysur: 'Yn

amser aredig, ac yn amser cynauaf, y gorphwysi.'' Exod. xxxiv. 21. Y mae gorchymyn Duw yn fwy nag aredig, na medi, na dim cyffelyb. Nid ydyw ein hynnill drwy wneuthur rhywbeth, na'n colled drwy beidio ei wneuthur, *ddim,* yn wyneb gorchymyn y Duw mawr.—Ni bydd neb yn ei golled o gadw gorchymynion Duw: Na neb, yn y diwedd, yn ennillwr o'u tori,—'Heb wneuthur dy ffyrdd dy hun.' Esa. lviii. 13. h. y. Dy ffyrdd cyfreithlawn i ti ddyddiau ereill; dy orchwylion, sydd genyt at dy fywioliaeth, y rhai y mae yn ddyledswydd i ti fod wrthynt y chwe diwrnod ereill:——Paid a gwneuthur hyny ar y Sabboth. Mae y pethau sydd yn ddyledswydd arnat eu gwneuthur ddyddiau ereill, yn bechod dirfawr i ti eu gwneuthur ar y Sabboth. —'Heb wneuthur dy ewyllys (neu, dy bleser) dy hun:' h. y. Rhyw ddyfyrwch cnawdol, megys cysgu —rhodiena—chwareyddiaethau—gwledda—diota—negesau bydol--cyfeillach gnawdol--darllen, dywedyd, neu wrando hanesion gwladol:—mae y pethau hyn oll, a'r cyffelyb, yn ddirmyg mawr ar ddydd yr Arglwydd.——'Na dywedyd dy eiriau dy hun,' y rhai sydd yn ddigon cyfreithlawn i ti, amser arall, fel na raid i ti ostwng dy ben o'u herwydd: ond y maent yn warth i ti ar ddydd yr Arglwydd. Nid llwon a geiriau segur, a feddylir yn benaf: oblegid, nid yw y rhai hyny eiriau cyfreithlawn i ti un amser. Ond, heb ddywedyd y pethau sydd gyfreithlawn i ti eu dywedyd ddyddiau ereill: ond neillduo y dydd i ymdrin â geiriau Duw, ac i ymddyddan am dano ef. ——Och! mae yn alarus meddwl am y drefn sydd ar eiriau llawer, ar y dydd Sabboth! Ië, hyd yn nod rhai dan enw Crist!——Gellid meddwl wrth eiriau llawer ar y Sabboth, nad yw y Sabboth yn werth sôn am dano; Ië, ac nad yw Crist chwaith, Arglwydd y Sabboth, yn werth sôn am dano yn ein plith.

Geiriau gweigion, ac ymddyddanion bydol, sydd yn llenwi y gwledydd ar y Sabboth: ïe, yn fwy na dyddiau ereill.

Mae y gorchymyn, hefyd, yn gofyn i benau teuluoedd, gadw llywodraeth ar eu plant, a'u gwasanaeth-ddynion; ïe, a'r dyeithriaid a fyddo yn eu tŷau, a defnyddio pob awdurdod, yn y lle y gosodwyd hwynt, i gael y rhai sydd dan eu llywodraeth i barchu Sabboth Duw. Och! y mae penau teuluoedd yn dra esgeulus o'r ddyledswydd hon! Ac y mae gwaed plant, a gwasanaeth-ddynion, wrth ddrysau llawer yn y peth hyn. Y mae llawer o benau teuluoedd yn eu tybied eu bod yn gwneuthur eu dyledswydd, os ânt eu hunain i foddion gras; er bod eu plant, a'u gwasanaeth-ddynion, yn rhyw le yn halogi y Sabboth; naill ai mewn chwareyddiaethau, neu yn segur gartref.——Dylem rybuddio ein teuluoedd am y perygl o halogi y Sabboth, a'u hannog, a'u cyfarwyddaw i ei gadw yn sanctaidd: a'u ceryddu os halogant ef. Dylem, megys Abraham, orchymyn i'n plant, a'n tylwyth, ar gadw o honynt ffordd yr Arglwydd: Ei Sabboth ef yn enwedig, fel dydd neillduol i rodiaw yn ei ffyrdd. Gen. xviii. 19. Ac megys Iosuah gynt, 'Myfi a'm tylwyth a wasanaethwn yr Arglwydd.' Ios. xxiv. 15. Dylai penau teuluoedd, nid yn unig fagu eu plant, 'yn addysg ac athrawiaeth yr Arglwydd,' (Eph. vi. 4.) ond, hefyd, ymofyn am wasanaeth-ddynion a fyddo yn parchu gair Duw, a'i Sabbothau; neu, o leiaf, os na allant gael rhai a fyddo yn gweled yn fraint gadw y Sabboth, dylent eu cyflogi i gadw y Sabboth; h. y. Dywedyd wrthynt, wrth gytuno â hwynt, eu bod yn dysgwyl iddynt fyned i foddion gras ar y Sabboth, a pharchu y dydd, fel dydd Duw: ac y byddont yn dysgwyl ufudd-dod yn hyny, yn benaf, fel y mae yn beth yn perthyn i Dduw.

1. Nid yn unig gorphwys fel anifeiliaid a ddylid, ond, yn benaf, fel saint. Gorphwys drwy ymhyfrydu y'ngwaith Duw, ac ei gyfeillach yn ei waith.——Neillduo yr holl ddydd at waith sanctaidd Duw, a'i addoliad ef. Addoli Duw â'r enaid a'r corph yr holl ddydd—yn ddirgel, rhyngom ni a Duw—yn deuluaidd, gyd â'n teuluoedd—ac yn gyhoeddus, yn y gynnulleidfa. Dylem drefnu ein hamser, y Sabboth, fel na byddo y naill ran o'r addoliad yn rhwystraw y rhan arall. Yr addoliad cyhoeddus ydyw prif waith y Sabboth: dydd pennodol i addoli Duw yn gymdeithasol ydyw. Etto dylem ochelyd na byddo i ni golli addoliad teuluaidd, trwy gysgu yn ormodol y bore, neu ryw annhrefn cyffelyb. Peth trwm yw fod ein teuluoedd heb addoliad parâus i Dduw ynddynt, yn feunyddiol; yn enwedig ar y Sabboth. Dylem ochelyd cysgu hyd amser dyledswydd deuluaidd, fel na bydd amser genym i fyned at Dduw yn y dirgel, i geisiaw ei wyneb ac ei gynnorthwyon yn ei waith.—Dylem ochelyd yr ochr arall, na byddo i ni gymeryd addoliad dirgel, a theuluaidd, yn esgus i esgeulusaw yr addoliad cyhoeddus.—'Yr Arglwydd a gâr byrth Sion, yn fwy na phreswylfeydd Iacob.'

Agwedd dlawd i ddysgwyl bendith yn yr addoliad cyhoeddus, ydyw myned yno wedi esgeuluso addoliad dirgel a theuluaidd: treulio bore Sabboth mewn cwsg a segurdod, i dristâu yr Ysbryd Glân; ac, wedi hyny, myned i'r addoliad cyhoeddus i ddysgwyl ei ymweliadau! Trachefn, peth ofer ydyw dysgwyl bendith ar ddarllen, &c. gartref, wrth esgeuluso y moddion cyhoeddus: ac, yn ddïau, nid rhai sychedig am fendith a all aros gartref, os gallant gyrhaedd i addoliad cyhoeddus. Y mae mawr eisieu cyfarwyddyd parâus gan Ysbryd Duw, yn hyn o'i waith:—Felly y gwaith sanctaidd y dylem fod

wrth ein bodd ynddo, y Sabboth, ydyw darllen gair Duw, a myfyrio arno; nesâu at Dduw mewn gweddi ddirgel, deuluaidd, a chyhoeddus:—Canu Psalmau a hymnau, ac odlau ysbrydol:—Pregethu y gair, ac ei wrando:—Gweinyddu y sacramentau, sef bedydd a swper yr Arglwydd:—Cyfeillachu â'r duwiolion, mewn pethau ysbrydol, perthynol i Dduw, ac enaid, a byd arall.——Rhai o'r pethau yma i fod yn achlysurol, ac nid bob Sabboth yn ddiball, megys bedydd a swper yr Arglwydd. Ond, y mae gweddio —myfyrio—darllen— pregethu—a gwrando y gair —canu mawl, &c. i fod fel y bara brwd gynt, ar y bwrdd bob Sabboth. Y mae esgeuluso y pethau hyn, yn tori y Sabboth, fel gwneuthur rhyw orchwyl â'n dwylaw. Y mae peidio gwneuthur y peth y mae y gorchymyn yn ei ofyn yn bechod, fel gwneuthur y peth y mae yn ei wahardd.

Sylwiwn—1. Fod cadw Sabboth yn beth o fawr bwys; a'i halogi yn bechod dirfawr yn erbyn Duw.——Y mae golwg wael, waradwyddus a dirywiedig, ar eglwys, ac achos Duw, pan mae y Sabboth yn cael ei esgeuluso: A phan y byddo Duw yn ymweled â'i eglwys, y mae diwygiad yn wastad yn y peth yma; sef cadw y Sabboth yn sanctaidd. Y mae agwedd addoliad Duw drwyddo mewn eglwys, ac ardal, yn cyfateb i'w dull hwynt yn cadw y Sabboth. Oblegid, nis gall fod agwedd flodeuog ar yr addoliad, os bydd yr amser a benododd Duw, yn neillduol, i'w addoli, yn cael ei ddirmygu a'i esgeuluso. Y mae y gair *cofia*, yn nechre y gorchymyn, y'mysg pethau ereill, yn dangos y mawr bwys o'i gadw yn sanctaidd. Y mae y gair *cofia* yn cynnwys amryw bethau:—1. Cofia yr hen orchymyn a roddwyd yn Eden, ac a 'sgrifenwyd ar galon Adda. ——2. Mae y gair *cofia* yn dangos ein tueddiad ni i'w anghofio, a'i gamdreulio.——3. Y mawr bwys

o'i gadw; fel pe buasai Duw yn dywedyd, *cofia* amser pènodol fy addoliad, fy nydd sanctaidd; os anghofi di y dydd hwn, ti a anghofi fy addoliad; ac os anghofi fy addoliad ti a'm hanghofi innau. Felly, mae dibrisdod o'r Sabboth yn arwain i atheistiaeth. Mae *cofia*, hefyd, yn dangos y dylem ei gofio cyn iddo ddyfod, fel y gallom barotôi ar ei fedr; rhoddi pethau y chwe diwrnod mewn trefn, fel na byddo achos meddwl am danynt pan ddelo y Sabboth. Bydd parotôi mawr, pan fyddis yn dysgwyl rhyw wr mawr i ymweled â ni, a glanâu tynod, a rhoddi pethau mewn trefn, cyn iddo ddyfod:—Gwr mawr yw y Sabboth—sanct yr Arglwydd ydyw—cènad y mae Duw yn ei anfon yn wythnosol atom i edrych pa barch a ddangosem iddo; ac mae Duw yn cyfrif ein hymddygiad at y Sabboth yn ymddygiad ato ef. Dywed Duw yn debyg i'r gair hwnw, 'Yn gymmaint nas gwnaethoch i'r rhai bychain hyn, nis gwnaethoch i minnau.' Gall ddywedyd am ei Sabboth, wrth ei halogwyr, Yn gymmaint nas parchasoch fy Sabboth, nis parchasoch finnau.

SYLWIWN—2. Fod tori y Sabboth yn bechod mawr yn erbyn Duw; ac, hefyd, yn tynu barnedigaethau trymion ar ddynion.——1. Dangosodd Duw ei anfoddlonrwydd yn fawr i'r pechod hwn, drwy orchymyn rhoddi i farwolaeth y sawl a'i halogai drwy unrhyw waith; ïe, pe buasai waith y tabernacl. Exod. xxxi. 13, 17.——Llabyddiwyd y dyn a gafwyd yn casglu cynnud ar y Sabboth: ïe, llabyddiwyd ef drwy orchymyn pendant Duw. (gwel Num. xv. 32, 35.) Nid oedd dim dïaledd trymach yn cael ei roi am ladd a godinebu nag oedd am halogi y Sabboth. Er fod dull y gosp yn perthyn i'r ddeddf wladol oedd yn Israel, ac nid yw, mae yn debyg, i'w harfer felly dan yr efengyl; etto mae drwg y pechod, ac anfoddlonrwydd Duw tu ag ato,

yn ymddangos yn hynod yn y gosp hono.——2. Y mae torri y Sabboth yn tynu barnedigaethau trymion ar ddynion, ie, ar wledydd cyfein. 'Os chwi ni wrendy arnaf, i sancteiddiaw y dydd Sabboth, heb ddwyn baich wrth ddyfod i byrth Ierusalem, ar y dydd Sabboth; yna mi a gynneuaf dân yn ei phyrth hi, ac a ysa ei phalasau, ac nis diffoddir.' Ier. xvii. 27. 'Fy Sabbothau, hefyd, a halogasoch yn ddirfawr:—yna y dywedais y tywalltwn fy llid arnynt.' Ezec. xx. 13. 'Yna y dwrdiais bendefigion Iuda, ac y dywedais wrthynt; Pa beth drygionus yw hwn yr ydych chwi yn ei wneuthur, gan halogi y Sabboth? Onid fel hyn y gwnaeth eich tadau chwi? Ac oni ddyg ein Duw ni yr holl ddrwg hwn arnom ni, ac ar y ddinas hon? A chwithau ydych yn chwanegu digofaint ar Israel, drwy halogi y Sabboth.' Neh. xiii. 17, 18. Sylwiwn, fod pendefigion i ei dwrdio am halogi y Sabboth, a goddef i ereill wneuthur hyny yn ddiŵg; lle dylent ddefnyddio eu hawdurdod o blaid gorchymynion Duw, ac yn erbyn ei ddirmygwyr:—Och! Pa le mae y dyn.

2. Prophwydir am fendithion hynod i'r rhai a gadwai y Sabboth, dan yr oruchwyliaeth efengylaidd. (Esa. lvi. 4.) Addawir lle yn yr eglwys i'r dyspaddedig a'r dyeithr, y rhai a gadwant y Sabbothau. Addawir iddynt enw tragywyddol, ac eu llawenychu hefyd yn yr eglwys. Diammeu, fod y geiriau yn golygu yr oruchwyliaeth newydd; oblegid nid oedd y dyspaddedig yn cael lle i wneuthur dim yn yr eglwys Iuddewig: ond, y mae yma addewidion gwerthfawr iddynt. Bendithiodd Duw y dydd Sabboth, am hyny, y mae bendithion yn canlyn ei gadw yn barâus; ac felly y byddant tra parâo amser.

Sylwiodd y Barnwr HALE,* fod bendith yn

* Late Lord Chief Justice of England.

dyfod o gadw dydd yr Arglwydd, medd efe, 'Yr ydwyf wedi dal manwl sylw, fod iawn sylwi ar ddyledswyddau dydd yr Arglwydd, â bendith yn eu canlyn, bob amser, ar y rhan arall o'm hamser. Yr wythnos a ddechreuwyf, gan iawn sylwi ar ddydd yr Arglwydd, sydd bob amser yn llwyddiannus a benditiol i mi; a'r ochr arall, pan fyddwyf yn esgeulus yn nyledswyddau y dydd hwn, y mae bob amser yn aflwyddiannus yn fy amgylchiadau gwladol.'—Y neb a fendithio yr Arglwydd bendigedig a fydd efe. Bendithiodd Duw y Sabboth, am hyny sicr yw fod yn fendith fawr, i bawb a'i cadwo.

Dylem gadw y Sabboth yn sanctaidd, ar amryw ystyriaethau, ac oblegid amryw resymau:

(1.) Dylem sancteiddiaw y Sabboth, o barch i'r Duw a'i trefnodd, ac a'i cadwodd gyntaf, ac a orchymynodd i ni ei sancteiddiaw ef. Dylem ei sancteiddiaw o barch i'Dduw, fel Pen-arglwydd ar amser, â hawl ganddo i ei ranu, fel y mynai; yn ol cynghor ei ewyllys ei hun. Wrth ranu amser yn ol ei gynghor, rhoddes Duw chwe diwrnod i ni, a chymerodd un iddo ei hun. Gallasai, yn gyfiawn, gymeryd chwech iddo ei hun, a rhoddi un i ni; ond, efe fu yn dra haelionus i ni yn hyn hefyd.——Yr ydym wrth halogi y Sabboth, yn codi yn erbyn Duw, Brenin y Breninoedd, ac yn erbyn ei lywodraeth ar amser. Yr ydym yn beio ar Dduw, yn ein hiaith wrth halogi y Sabboth; ac yn dywedyd, ei fod wedi cam ranu amser; fod y chwe diwrnod yn rhy fach i ni; ac un, sef y seithfed, yn ormod i Dduw:—Och! A ydym ni ac y byd, chwe gwaith gwell na Duw? Ai, am hyny, yr ydym yn ceisio lladrata rhan Duw at ein rhanau ein hunain?

Rhai yn lladrata rhan, drwy aros yn hwyr nos Sadwrn, gyd â'u gorchwylion; a chymeryd rhan o'r bore Sabboth i gysgu yn lle hyny.—Ereill, drwy

fyned i ei gwelŷau yn gynnarach nos Sabboth, i gael codi yn foreuach dydd Llun.—Ereill, yn ddigywilydd, yn lladrata y cwbl; y dydd i gyd at wasanaeth byd, cnawd, a diafol—yn debyg i'r gwr cyfoethog yn y ddammeg. (2 Sam. xii. 2, 4.) Yr hwn er fod ganddo lawer o ddefaid, a gwartheg, etto, pan ddaeth ymdeithydd ato, efe a arbedodd ei ddefaid ei hun, ac a arlwyodd i'r ymdeithydd, unig oenig y gwr tlawd; felly y mae llawer gyda y Sabboth; arbedent eu chwe diwrnod eu hunain, pan ddelo rhyw ymdeithydd—byd—cnawd—neu ddiafol heibio; ac a roddant iddynt ran o ddydd sanctaidd Duw.——Os daw cnawd i ofyn rhan o'u hamser i gysgu, diota, cyfeddach, rhodiana, &c. arbed llawer eu chwe diwrnod yn lled gymhedrol; ond, Och! hwy arlwyant, i'r ymdeithydd yma, unig ddydd sanctaidd Duw! Os daw diafol i ofyn rhyw orchwyl neillduol gan ddynion, arbedant eu chwe diwrnod yn fynych; ond, Och! rhoddant ddydd sanctaidd Duw i ei waith halogedig ef!——Och, dyma y dydd y mae tafarndŷau lawnaf o loddestwŷr a meddwon yn ein teyrnas.——Och! ar y dydd sanctaidd hwn, y mae y meusydd lawnaf o segurwŷr, a'r tŷau lawnaf o chwedleua gwag ac ofer, mewn llawer ardal. Heblaw hyn, os daw ein penaethiaid i ofyn rhyw ran o'n hamser, fel arwydd o'n ffyddlondeb, a'n hufudd-dod iddynt, cais llawer arbed eu dyddiau eu hunain, a chymeryd dydd sanctaidd Duw i hyny. Dymunwn i bawb yn ein teyrnas fod yn ufudd i'n hucbafiaid a'n blaenoriaid, yn mhob peth, hyd y byddo yn unol â gair Duw, yr hwn sydd uwchlaw pawb. Os gofynant ran o'n hamser, dylem yn ewyllysgar ei roddi iddynt, hyd yn nod amser bwyta a chysgu, os bydd raid. Ond, am y Sabboth, nid ein heiddo ni ydyw, i ei roddi i neb. Ni roddodd Duw ef i ni ond i ei sancteiddiaw; am hyny, ni ddylem ni ei

roddi i neb; nac ychwaith ei dreuliaw mewn dim; ond sydd yn unol â'i gadw yn sanctaidd. Nid oes dim gwaith naturiol yn gyfreithlawn ar y Sabboth, ond pethau cwbl angenrheidiol at gynnal bywyd dyn ac anifel, nad oedd bosibl ei wneuthur yn gynt; nac ychwaith aros yn hwy heb ei wneuthur; megys rhoddi ymborth cwbl angenrheidiol i ddyn a'i anifel, eu hymgeleddu a'u gwared o gyfyngder—cadw tŷ rhag llosgi, a'r cyffelyb—gwrthwynebu gelynion, pe rhuthrent arnom. Ni ddylai hyny fod yn beth ysgafn gan neb chwaith. Dylem weddïo yn daer, yn barâus, am i'r Arglwydd gadw ein gwlad, fel na chaffo estroniaid ei sathru: ond, pe gorfyddai arnom ymladd, neu ffoi, dylem weddïo na byddai hyny ar y Sabboth. 'Gweddïwch na byddo eich ffoedigaeth ar y Sabboth.' Mat. xxiv. 20. Dywedodd Crist y geiriau wrth ei ddysgyblion am y Sabboth efengylaidd; oblegid efe a wyddai mai y dydd cyntaf o'r wythnos fyddai eu Sabboth hwynt, amser dinystr Ierusalem. Os dylem weddïo na byddo raid i ni ffoi ar y Sabboth, diammeu, na ddylem ddysgu rhyfel ar y Sabboth; yn enwedig, os byddwn ryw ddiwrnod o'r saith heb fod yn dysgu, diammeu, mai y Sabboth y dylai hwnw fod. Mae yn ofer dadleu fod yn anhawdd i'r bobl roddi eu hamser ddyddiau ereill, oblegid y mae genym ni chwe diwrnod gyd â'n sefyllfäoedd; ond nid oes genym ond un Sabboth i ei dreuliaw gyda gwaith ein Duw. Heblaw hyn, y mae bendith Duw, ar ychydig amser, yn ddigonol i ei wneuthur yn well i ni na llawer dan ei ŵg ac ei felldith.

3. Yr ydym, wrth dori y Sabboth, yn codi yn erbyn llywodraeth Duw arnom ein hunain, ac yn dywedyd yn ein hiaith, ni fynwn ni y Duw hwn sydd yn gofyn dydd o saith i ei dreuliaw yn sanctaidd iddo, ac yn ei waith. Gwell genym ni fyd, cnawd,

a diafol, sydd yn gorchymyn i ni dreuliaw y Sabboth ar ein melys-chwant,' ac yn wrthryfelgar yn erbyn Duw.

4. Nid yw ond peth bychan cadw dydd o saith, o barch i Dduw, fel Creawdwr, wrth fwynâu ei greaduriaid:—gwelwn ein Creawdwr ynddynt.

(2.) Dylem, yn benaf, gadw y Sabboth o barch i'r Mab, yr hwn a gyfododd o'r bedd y dydd cyntaf o'r wythnos, wedi llwyr orphen holl waith y prynedigaeth. 'Hwn,' sef Crist,* 'a orphwysodd oddiwrth ei weithredoedd ei hun, megys y gwnaeth Duw oddiwrth yr eiddo yntau.' Heb. iv. 10.——Y Mab yn gorphwys oddiwrth ei waith yn prynu, fel y Tad oddiwrth ei waith yn crëu. Am fod gwaith y prynedigaeth yn fwy, a rhyfeddach na'r gwaith o grëu bydoedd, yr oedd yn weddus newid y diwrnod, i gofiaw y gwaith yma yn hytrach. Onid yw y gwaith gogoneddus a wnaeth ein Crist bendigedig, a'r fuddugoliaeth ryfedd a ennillodd, ac a amlygwyd fore y trydydd dydd, yn werth cadw un dydd yn sancteiddiol, yn goffadwriaeth ddiolchgar am hyny, tra byddo amser yn bod? A ydyw cnawdoliaeth y gair tragywyddol, ei waith yn cymeryd ein natur, ac yn myned i'n deddf le, dan gyfrifiad o'n pechodau, a than ein melldith a'n cosp; ïe, ac wedi gorchfygu ein gelynion, a llwyr dalu ein dyled; a chodi yn fuddugoliaethus fore y trydydd dydd; A ydyw hyn, meddaf, mor ddiwerth yn eich golwg, fel na thal mo'i gofio? Och, y mae anystyriaeth ac an-

* Wrth briodoli y geiriau hyn i'r Arglwydd Iesu, ac nid i ei bobl, yr ydwyf yn cydnabod fy mod yn gwahaniaethu yn fy ngolygiad arnynt, oddiwrth amryw awdwyr enwog. Y mae fy ngolygiad arnynt yn gwbl gytun âg esponiad rhagorol y duweinydd enwog, a dysgedig hwnw, Dr. J. Owen. Cefais hollol foddlonrwydd am gywirdeb ei olygiad, yn y rhesymau goleu a chadarn a sydd yno o blaid ei esponiad arnynt. Tybiais yn addas i wneuthur y sylwiad hwn, rhag i neb gael achlysur i feddwl fy mod yn rhyfygus yn dilyn fy marn fy hun, gyda diystyrwch o farnau rhai ereill, llawer mwy eu dysg, a'u dawn, a'u goleuni ysbrydol, ag sydd genyf barch dyladwy iddynt.

niolchgarwch dyn, yn fawr iawn!!——Os oedd creedigaeth y byd, ac y waredigaeth o'r Aipht, yn destunau cadw y Sabboth yn sanctaidd a manwl, pa faint mwy gwaith ydyw gwaith iechydwriaeth? yr hwn a lwyr orphenodd Crist, ac a orphwysodd wedi ei orphen fore y trydydd dydd! Onid yw gwaith a gorphwysiad Crist yn ddigon i'r meddwl a'r myfyrdod gartrefu ynddynt, a threiddio iddynt, gyda difyrwch, yr holl Sabboth? Ac onid ydyw y gwaith gogoneddus yma yn ddigon i ymddyddan am dano, gyda blas, tra parâo y dydd sanctaidd? Y mae yn ddirmyg mawr ar Grist, a gwaith y prynedigaeth, i ni dybied fod y Sabboth, yr hwn sydd i ni gofiaw ei waith a'i orphwysiad ef, i ei gadw yn fwy penrydd a chnawdol nag y Sabboth oedd i gofiaw y waredigaeth o'r Aipht, ac yn wystl o'r orphwysfa yn Nghanaan. Onid yw y waredigaeth oddiwrth felldith y ddeddf, ac oddi dan lywodraeth diafol a phechod, yn waredigaeth mwy rhyfeddol, ac yn haeddu ei chofio yn sanctaidd a pharchus, mewn hyfrydwch calon yn y gwaith?

(3.) Dylem gadw y Sabboth yn sanctaidd, o barch i'r Ysbryd Glân, yr hwn a ddisgynodd ar ddydd y Pentecost, mewn dull rhyfedd, i wneuthur gwaith rhagorol iawn. Y dydd cyntaf o *amser*, y trefnodd efe y greedigaeth: Gen. i. 2. Ond y dydd cyntaf o'r *wythnos*, y disgynodd i wneuthur gwaith mwy gogoneddus; sef trefnu y greedigaeth newydd, Eglwys y Testament Newydd.—Bydd y greedigaeth ogoneddus hon, yn ei dysgleirdeb a'i gogoniant, wedi i'r byd fyned ar dân. Yn y greedigaeth gyntaf, gwnaeth greaduriaid hardd, o'r defnyddiau cymmysg, (*caos*) oed, yn y greedigaeth newydd, y mae yn gwneuthur gwaith harddach o ddefnyddiau pechadurus, a llawer mwy didrefn na'r *caos* gynt! Ar y Sabboth, yn benaf, y mae efe etto yn dwyn ei

waith gogoneddus yn mlaen, er nad ydyw yn ei adael heibio ddyddiau ereill. Y mae efe yn parâu i argyhoeddi, i ail eni, dysgu, arwain, magu, ac ymgeleddu miloedd etto, yn neillduol y dydd hwn; am hyny dylem gadw y Sabboth o barch iddo, ac i ddysgwyl wrtho am ei amgeledd a'i driniaeth i'n hysbrydoedd yn ei waith. Pa fodd y dysgwyliwn amgeledd yr Ysbryd Glân, yn moddion gras, ar y dydd Sabboth, tra byddom yn treuliaw y rhanau ereill o'r dydd i ei dristâu? Y mae llawer yn treuliaw oriau o'r bore Sabboth i gysgu, segura, &c. trwy yr hyn y maent yn tristâu yr Ysbryd Glân. Ac yna pa ryfedd eu bod yn amddifaid o ymgeledd yr Ysbryd yn moddion gras? Felly, hefyd, y mae llawer yn treuliaw yr amser rhwng oedfäon cyhoeddus, i wag ymddyddan, geirian ofer pechadurus, a thrwy hyny, yn gollwng i golli yr hyn a dderbyniasant yn y moddion aeth heibio; ac yn eu hanaddasu eu hunain at foddion sydd i ddyfod. O'r golled fawr y mae cannoedd o broffeswyr yn gael drwy hyn.— Felly, gwelwn fod halogwyr y Sabboth yn dirmygu y Drindod.

(4.) Dylem gadw y Sabboth yn sanctaidd, yn arwydd fod gorphwysfa enaid yn yr Arglwydd: ac nad oes gorphwysfa yn un man arall. 'Dychwel O fy enaid i'th orphwysfa; canys yr Arglwydd a fu dda wrthyt.' Ps. cxvi. 7. Collasom ein gorphwysfa yn Nuw drwy y cwymp: collasom ei heddwch; ei gyfeillach; mwynâad o hono; ac ymfoddlonrwydd ynddo. Llanwyd ni âg euogrwydd ac ofn drwg; ac aethom i chwiliaw am orphwysfa mewn pethau ereill:—ond er chwilio nid oedd un i ei chael. Ond, o anfeidrol ras, ennillwyd yr orphwysfa yn ol i ni gan Grist: ac y mae efe yn gwahodd y rhai blinderog a llwythog i gael gorphwysfa, yn ei orphwysfa ef. 'Deuwch ataf fi, bawb sydd flinderog ac yn

llwythog—a chwi a gewch orphwysfa i'ch eneidiau.' Mat. xi. 28, 29. Dyma yr unig le i enaid llwythog gan euogrwydd i roddi ei faich i lawr: dyma noddfa i'r ffoadur, sydd ar ddarfod am dano, o flaen y dialydd, i gael ymguddio a gorphwys, yn y gwr a dalodd y dyled, ac a lonyddodd gyfiawnder dïaleddol yn llawn. Yn Nghrist, hefyd, y cawn ein hanadl, oddiwrth derfysg ein gelynion tufewnol; ein llesgedd a'n pla dirfawr, sydd yn ein trallodi yn barâus, ddydd a nos. Ond, yr ydym yn cael graddau o orphwysfa oddiwrth orthrymder y rhai'n, rai mynydau yn nghyfeillach Crist:—Dylem gadw y Sabboth, yn barchus, i gofiaw hyn.

(5.) Y mae y Sabboth yn wystl o'r orphwysfa berffaith a gaiff y saint tu draw i'r bedd. Dydd neillduol i ddiddyfnu enaid oddiwrth y byd, a'r pethau gweledig; drwy roddi blas i'r enaid, yn moddion gras, ar bethau ysbrydol a nefol. Drwy neillduo, raddau, o dwrf y byd a'r creaduriaid, at bethau Duw, yr oerir graddau ar y serch at y pethau gweledig; a thrwy dyna un dydd o saith oddiwrth ynt at bethau ysbrydol a nefol. Dydd neillduol yw hwn i gyfeillachu â Duw, yn moddion gras; ac i adael pob creadur, mewn gradd, i fwynâu Duw yn y Cyfryngwr. Ac, yn ei gymdeithas felys, fendigedig ef, nid anhawdd ydyw galw y Sabboth yn hyfrydwch, a sanct yr Arglwydd yn ogoneddus. Dyma y dydd yr ydym yn derbyn grawnsypiau Canaan, yn yr anialwch; i aros amser Duw i fyned drwy yr Iorddonen i eu mwynâu yn gyflawn. Ac, yn wir, y mae eu blas peraidd yn peri i ni riddfan, a hiraethu, am fyned i'r wlad lle cawn ymborthi arnynt byth, heb elyn i'n terfysgu! Y mae dyfodfa y Sabboth i mewn, fel *Iubili*, i eneidiau llwythog a blinderog plant Duw. Y mae yn orfoledd ganddynt gael Sabboth yma, er nad ydynt yn gallu ei gadw

yn berffaith; nac yn ei gael ond dros ychydig; etto llawen ganddynt ei gael, i aros Sabboth perffaith, tragywyddol, gyda Duw, ar ei ddelw, yn ei gyfeillach, tu draw i'r bedd. Ond y mae diwedd y Sabboth yn eu llenwi â galar drachefn; oblegid eu bod yn gorfod troi yn ol, wedi dyfod agos i olwg Canaan, i deithiaw yr anialwch dyrys drachefn, lle mae seirph tanllyd yn parâu i eu dilyn. Etto, y maent yn ymgysuraw wrth feddwl am y Sabboth sydd yn dyfod, cyn bo hir, heb ddiwedd iddo byth: pan y cânt adael eu gelynión, eu lludded, eu trallod, a'u gofidiau oll, o'u hol am byth; a mwynâu Duw yn Nghrist, heb len na chwmwl i ei guddiaw oddiwrthynt i dragywyddoldeb.

CASGLIAD.

Gan fod y Sabboth i ei gadw yn sanctaidd, yn ol gorchymyn moesol, y mae dydd o saith i ei neillduo oddiwrth bob gwaith, yn hollol i addoli Duw, dan bob goruchwyliaeth. Er fod rhyw beth yn wahanol yn eu dull yn cadw y Sabboth dan bob goruchwyliaeth, yn gyfatebol i'r oruchwyliaeth y byddent dani: etto, yr oedd hyn yn ei rym dan bob goruchwyliaeth, sef, cadw un dydd o bob saith yn sanctaidd a neillduol i addoli Duw, a'i wasanaethu, yn barchus. Yn ganlynol, gwelwn hefyd fod ein gwaith yn halogi y Sabboth, yn droseddiad o orchymyn moesol; ac nad oes bosibl ei faddeu, ond drwy iawn Crist. Ond fe gadwodd Crist y gorchymyn yn berffaith, ac a ddyoddefodd y felldith oedd ddyledus i ni am ei dori ef, yn nghyd â'r gorchymynion ereill, ac a roddes iawn perffaith i gyfiawnder dros y troseddiadau yn ei erbyn:—Ac y mae yr Ysbryd Glân yn ysgrifenu y gorchymyn hwn ar galonau y saint, gan eu cydffurfio âg ef.

DEFNYDDIAU.

DEFNYDD O GERYDD.——1. I'r rhai sydd yn meddwl fod y Sabboth wedi ei ddiddymu, dan yr oruchwyliaeth efengylaidd. Y mae Duw yn wrthddrych teilwng o'i addoli yn barâus: am hyny, dylem neillduo amser i ei addoli, yn neillduol, parchus, a sanctaidd. (2.) Y mae y waredigaeth drwy Grist, yn anfeidrol fwy ryfedd nac y waredigaeth o'r Aipht: am hyny, y dylem gadw y Sabboth mor fanwl a sanctaidd i gofiaw y waredigaeth hon: ïe, a dibrisdod mawr ar Grist, a gwaith iachawdwriaeth, ydyw treuliaw y Sabboth yn ddiofal, segur, ac esgeulus.

2. Cerydd i'r rhai sydd yn treuliaw y Sabboth gyda eu gorchwylion cyffredinol, dan ryw liw o angenrheidrwydd; gan olygu elw, parch, neu bleser, yn fwy na gair a gorchymyn sanctaidd Duw.

3. Cerydd i'r rhai sydd yn treuliaw rhan fawr o'r dydd sanctaidd hwn, mewn cwsg a segurdod; gan gymeryd y Sabboth yn orphwysfa anifeiliaid, yn hytrach na gorphwysfa Cristionogion.

4. Cerydd i'r rhai sydd yn esgeulusaw moddion gras, dan y lliw o aros gartref i ddarllen, a llywodraethu y teulu, &c. Nid oes dim lle i ddysgwyl am gymhorth i ddarllen na gweddïo gartref, tra yr esgeulusir moddion gras yn gyhoeddus.

5. Y mae y rhai hyny yn deilwng o gerydd, sydd, er eu bod yn gadael eu gorchwylion heibio, a myned i foddion gras hefyd, etto yn ymollwng i ymddyddanion anaddas i'r Sabboth; a thrwy hyny, yn eu gwneuthur eu hunain, ac ereill, yn amddifaid o'r budd a ellid gael y'ngwaith y Sabboth:—ac yn lladrata gogoniant Duw hefyd.

6. Y mae y rhai hyny yn deilwng o gerydd, sydd yn treuliaw y Sabboth, yn fwy na dyddiau

ereill, yn ngwaith y diafol; mewn chwareyddiaethau, diota, meddwdod, glythineb, &c. &c. fel pe byddent yn dirmygu y Duw a orchymynodd ei sancteiddiaw: ac i ddirmygu y Crist a gyfododd fore y trydydd dydd; y gwaith gogoneddus a wnaeth efe; y'nghyd â'r orphwysfa a gafodd wedi gorphen ei waith.

7. Mae y rhai hyny yn deilwng o gerydd hefyd, sydd yn cadw y Sabboth yn unig oddiar egwyddor ddeddfol, ac er mwyn cael eu gweled gan ddynion; ac nid o ufudd-dod i orchymyn Duw, nac oddiar un rhyw hyfrydwch y maent yn gael yn y gwaith. Nid allant alw y Sabboth yn hyfrydwch; yn hytrach eu baich ydyw: a'u llais dirgel ydyw, 'Pa bryd yr â y Sabboth heibio?' Er ymgadw oddiwrth eu gorchwylion, ac oddiwrth ymddyddanion anaddas, &c. a gwneuthur dyledswyddau lawer, etto, nid hyfrydwch eu henaid yw.——Os ydyw dydd o saith yn ormod genyt y'ngwasanaeth neillduol Duw, Pa fodd y byddai fyw byth yn y nefoedd, lle nad oes ond cadw Sabboth tragywyddol didor i Dduw.

8. Y mae y rhai hyny yn deilwng o gerydd, sydd a'u sefyllfaoedd sydd yn eu caethiwo ar y Sabboth, ac yn eu hamddifadu o foddion gras; ac yn eu rhwymaw wrth bethau anaddas i natur y Sabboth. Dylent wneuthur pob ymdrech i'w newid.

Defnydd o Gyfarwyddyd.—1. Gweddïa am gymhorth i barchu holl orchymynion Duw, fel eu gilydd; fel y gallech ddywedyd gyda Dafydd, 'Ni'm gwaradwyddid pan edrychwn ar dy holl orchymynion.'

2. Bydded hyfryd gan dy enaid gofiaw gwaith a gorchwyl Crist fel y byddo y Sabboth yn hyfrydwch genyt: a'r gwaith perthynol iddo yn felys gan dy ysbryd. Bydded gwaith gogoneddus y pryned-

lgaeth yn fater genyt i feddwl, myfyriaw ac ymddyddan am dano, tra parâo y dydd sanctaidd hwn.

3. Bydded y ddaear, a'r pethau perthynol iddi, mor ddyeithr a gwrthwynebol i'th ysbryd, fel y byddo melys genyt gael dydd o saith i dynu o'u swn a'u twrf, at bethau Duw yn unig.

4. Cofia y dydd Sabboth cyn iddo ddyfod; fel y gallech roddi dy holl orchwylion bydol mewn trefn, y'nghorph y chwe diwrnod, fel na byddo achlysur i ti ymddyrysu gyda hwynt ar ddydd sanctaidd Duw.

5. Llef am gynnorthwyon yr Ysbryd Glân yn y gwaith o sancteiddio y Sabboth, i ysgrifenu y gorchymyn ar dy galon, ac i'th arwain i bethau perthynol i'w sancteiddiaw; ac i dywallt bendithion helaeth ar foddion gras.

Defnydd o Gysur, i'r saint blinedig, sydd dan orthrymderau gelynion, byd, cnawd, a diafol, yn griddfan ddydd a nos, yn yr anialwch dyrys.

1. Y mae y Sabboth anmherffaith, ydwyt yn gael yma, yn lloni dy enaid helbulus yn fynych. Ond, nid yw y Sabboth hwn ond ernes o'r Sabboth tragywyddol sydd yn aros tu draw i'r bedd; lle caiff y blinedig orphwys yn dawel byth. Gorphwys gyda Duw, mewn mwynâad o hono, ac ar ei ddelw; heb ddiafol, na byd, na chalon lygredig i'th flino, na'th aflonyddu mwy.

2. Er dy fod yn gofidiaw, yn bresennol, oblegid bod y Sabboth yn darfod, wedi i ti gael blas neillduol ar waith a chyfeillach dy Dduw ynddo; y mae Sabboth yn dyfod, na bydd diwedd iddo byth. Gan hyny, bydd ddiolchgar am Sabboth dros ychydig oriau, weithiau, i aros y Sabboth tragywyddol sydd gerllaw:——Dysgwyl yn ddystaw, hyd nes y delo y Sabboth hyfryd hwn.

Gellir enwi llawer o Farnedigaethau Duw, a ddisgynasant ar Ddinasoedd, a Phersonau neilltuol, hyd yn nod yn Mrydain, o herwydd halogi y Sabboth.

AR y Sabboth y llosgwyd Ierusalem gan y Rhufeiniaid; gwnaed hyn, medd *Hegissippus* a *Dio*, ar y Sabboth yn mis MEDI, yn nghylch 40 mlynedd wedi marwolaeth Crist.

Yr oedd y pechod o dorri y Sabboth, yn llywodraethu yn gryf iawn yn Llundain; cospwyd hwy â thân rhyfedd a dychrynllyd; yr hwn a dorodd allan ar ddydd Sabboth, MEDI 2, yn y flwyddyn 1666, ac a losgodd y rhan fwyaf o'r dref yn ulw:— ei hadeiladau teg, a'i heglwysydd mawrion hyd lawr.

Y mae Dr. *Beard* yn dywedyd am dref Teverton, yn Sir Devon, ei bod wedi cael ei rhybuddio yn fynych, gan weinidogion duwiol oedd yno, y dygai Duw ryw farn drom arnynt am halogi y Sabboth. Yr oeddynt yn cymeryd achlysur i'w halogi drwy barotoi at y farchnad oeddynt yn gynnal ddydd Llun.——Yn fuan ar ol marwolaeth y gweinidog duwiol, ar y 3dd o Ebrill, 1598, anfonodd Duw dân dychrynllyd yno, yr hwn a'i hysodd, mewn llai na hanner awr, oddieithr yr eglwys a'r elusendŷau a thŷ y cwrt; ynghyd âg ychydig o dŷau pobl dlodion. Gallasid gweled yno bedwar cant o dŷau ar dân, ar unwaith, yn myned yn ulw yn y fflamau:—yswyd tros 50 o ddynion yn y fflamau.——Ond, er hyn oll, ni chymerodd y gweddill rybudd; eithr parâsant yn yr un pechod:—Aeth y dref ar dân drachefn, AWST y 5ed, 1612, (bedair blynedd ar ddeg ar ol y tro cyntaf) llosgwyd y cwbl oddieithr ychydig o dŷau tlodion.*

* Vid. Dr. Beard's Theatre of God's Judgments.

Y mae Dr. *Twiss* yn dywedyd am dro rhyfedd a fu yn Sir Bedford. Yr oedd ymdrech-gamp i chwareu y bêl droed wedi ei llunio i fod ar brydnawn ddydd Sabboth: tra yr oedd dau o flaenion y gamp, yn y clochdŷ, yn canu y gloch i alw y lleill yn nghyd, clybüwyd swn taran; yn ddisymmwth, gwelwyd gan y rhai oedd yn eistedd yn mhorth yr eglwys, mellten yn dyfod drwy hwylfa dywyll, ac yn fflamiaw yn eu wynebau; yr hyn a'u dychrynodd yn fawr. Aeth drwy y porth i'r clochdŷ—cododd sodlau yr hwn oedd yn canu y gloch, ac a'i tarawodd ef yn farw yn y fan. Cafodd y llall ergyd ganddi, nes ei friwo yn dost:—bu yntau, hefyd, farw yn fuan.†

Gweinidog duwiol yn Burton ar Trent, a fyddai yn mynych arfer bygwth, ac yn ceisiaw argyhoeddi, torwŷr Sabbothau; yn enwedig, y rhai a fyddai yn gwerthu ac yn prynu cig foreuau Sabbothau, yr hyn oedd arfer rhy gyffredin yn y lle hwnw. Er maint a fyddai y gweinidog duwiol a llafurus yn gynghori ac yn ei fwgwth arnynt, etto, parâu yr oeddynt yn gyndyn ac anmhlygedig. Yr oedd un teiliwr yn byw yn y cwr uchaf i'r dref, yr hwn a fynai fyned ar hyd heol hir, o'r naill ben i'r llall, megys mewn ffordd o ymffrost, i geisiaw cig bob bore Sabboth:—ond, fel yr oedd yn dychwelyd adref, â'i ddwylaw yn llawn, yn nghanol yr heol, syrthiodd i lawr yn farw. Gweithiwyd dychryn yn mysg y cigyddion, ac ereill, drwy hyny.

Y mae Mr. *Clark* yn crybwyll am weinidog duwiol, oedd un Sabboth, yn ei bregeth, yn gwasgu yn wresog ar y bobl yn nghylch sancteiddiaw y Sabboth: ac yn nghorph y bregeth, cymerodd achlysur i grybwyll am y dyn, yr hwn, drwy orchymyn neill-

† Dr. *Twiss* on the Sabbath.

duol Duw, a labyddiwyd i farwolaeth am gasglu briw-wydd ar y Sabboth. Ar hyn, dyn drygionus, oedd yn y gynnulleidfa, a chwarddodd, ie, ac a aeth allan gyda brys; ac efe a aeth i gasglu briw-wydd, er nad oedd arno ddim eu heisieu. Ond, pan ddaeth y bobl o'r bregeth, hwy a'i cawsant ef ar y ffordd, yn gwbl farw; â choflaid o friw-wydd yn ei freichiau:*—Arwydd neillduol o farn Duw!!!

Un *Thomas Sarage*, gwr ieuanc a ddihenyddiwyd, HYDREF 28, 1668, yn Ratcliff, am ladd ei gyd-was; tra yr oedd efe yn y carchar, llefodd yn fynych, wrth y rhai oedd yn dyfod i ymweled âg ef, yn y dull canlynol:—O, mor druenus oeddwn I! Yr oeddwn yn astudiaw pa fodd y treuliwn ddydd yr Arglwydd yn ngwaith y diafol! Yr amser y dylaswn fod yn ngwaith Duw, yr oeddwn I brysuraf yn ngwaith y diafol: yr oeddwn yn llawen wrth weled y Sabboth yn dyfod, i gael cyfle i ddilyn fy chwantau a'm pechodau. Byddwn weithiau yn myned i'r eglwys, ond ni byddwn un amser yn aros i wrandaw yr holl bregeth:—byddwn yn chwerthin am benau y rhai fyddai yn treuliaw y Sabboth i ddarllen a gwrandaw; ac yn edrych arnynt y ffyliaid penaf yn y byd.——O, dywedwch i ddynion ieuanc, oddiwrthyf fi, fod tori y Sabboth yn bechod peryglus a drud.

* Clark's Examples.

DIWEDD.

Bala, Argraffedig gan R. Saunderson.